

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 361 - 60c
Mawrth 2018

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Lluniau
Pantos
Clybiau lleol



Tudalen 24

Timau
Pêl-droed
Ieuencid



Tudalen 23

Dathlu
Gŵyl
Dewi



Tudalen 21

Eisteddfod Lwyddiannus Bro Pedr

Enillydd y
Gadair - am y
trydydd tro yn
olynol - oedd
Twm Ebbsworth,
Teifi. Ef hefyd
oedd yn ail
a chydradd
trydydd yn y
gystadleuaeth.



Lauren
Hill,
Teifi,
oedd
enillydd
y Goron
am gerdd
Saesneg.



Llongyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o Eisteddfod campws hŷn Ysgol Bro Pedr eleni. Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thŷ gyda Teifi'n cipio'r brif wobwr ac yn ennill yr Eisteddfod.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thŷ sef, Ryan Mackie-Jones a Mari Elen Lewis (Creuddyn); Daniel Thomas, Grace Page a Gwenllian Jenkins (Dulas); Iestyn Evans a Cari Jones (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol.

Ar ddiwedd y cystadlu, Teifi ddaeth i'r brig gyda 757 o bwyntiau, Creuddyn yn ail gyda 467 a Dulas yn drydydd gyda 413 o bwyntiau.

Ceir adroddiad llawn a rhagor o luniau yn y rhifyn hwn.

Eisteddfod Bro Pedr



Capteniaid Tŷ Teifi: Is-gapten - Nia Thomas, Capteniaid - Iestyn Evans a Cari Jones ac Is-gapten - Osian Jones, gyda'u cefnogwyr wedi eu llwyddiant yn ennill Eisteddfod yr ysgol.



Cymeriadau - Yr areithiwr gorau oedd Siencyn Jones a Harri Butten oedd yr actor gorau, y ddau o dŷ Teifi.



Dwy gyfnither - Enillydd Barddoniaeth Bl.10 oedd Beca Roberts ac enillydd Unawd Merched Hŷn oedd Lisa Evans.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@AnwenButten
Chwefror 18

Penwythnos da yn ymarfer yn erbyn Lloegr fel rhan o'r ymarfer cyn gemau'r gymanwlad.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@BenMLake
Chwefror 17

Phawn o flas cwrw o Gymru a rhoi'r byd yn ei le yng Ngwyl Gwrw Llambod - diolch yn fawr i'r trefnwyr!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@ElinCeredigion
Chwefror 16

Noson ddifyr, hwyliog swnllyd yng nghwmni Clwb Gwawr @YAWAR yn nhafarn BelleVue Llanllwni.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Eleri_Twynog
Chwefror 15

Pawb yn gobeithio cael tocyn i gyngerdd pigion @YsgolBroPedr Edrych mlân.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd @Clonc360
Chwefror 9

Llawn hwyl yng Nghlwb Bowls #Llanbed heno gyda #ArWasgar.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CTLLPSLTC
Chwefror 4

Lluniau cinio #CymorthCristnogol ddydd Gwener @DileuTlodi

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a fforddiadwy i'ch holl anghenion gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu biniau maint:
240 / 660 a 1100 Litr



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mawrth Lois Williams, Crynfryn, Cwmann 423700
Ebrill Marian Morgan, Rhydyfelin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogrir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Traddodiad

Mae traddodiad yn iawn yn ei le. Dyna i chi'r traddodiad o ddathlu Cymreictod adeg Gŵyl Dewi. Bydd hi'n braf gweld lluniau o blant yn eu coch ac yn eu brethyn yn britho ein tudalennau Facebook. Ac eleni, am y tro cyntaf, gan adeiladu ar ein traddodiad cyfoethog o ddathliadau, bydd gan Llambed ddathliad newydd – Parêd Gŵyl Dewi. Edrychwn ymlaen at yr orymdaith a'r dathliadau, gan gynnwys y gig ar y nos Sadwrn. Dyma gyfle gwych i ieuencid i ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Erbyn y daw'r rhifyn yma o Clonc o'r wasg, bydd Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan wedi bod yn trafod y weddi sy'n digwydd cyn dechrau'r cyfarfod ffurfiol bob tro mae'r cyngor yn cwrdd. Mae hyn yn fater sensitif – yn bennaf, oherwydd ffydd bersonol (neu ddiffyg ffydd, sydd hefyd yn gallu bod yn fater llafar i nifer), a'r hinsawdd rydym ni'n byw ynddi, o fod ofn tramgwyddo neb, yn enwedig pobol o grefyddau gwahanol. Mae'r Cyngor wedi bod yn offrymu gweddi Gristnogol cyn dechrau pob cyfarfod – dyna'r traddodiad. Ond a yw'r traddodiad yn un sy'n werth ei gadw? Pa mor ddilys yw gweddi (Gristnogol neu fel arall) oherwydd traddodiad, dim ond mynd trwy'r 'motions'? Ac o ran hynny, mae'n werth holi hefyd, i ba raddau mae traddodiad yn chwarae'i ran ar ein haelodaeth eglwysig? Ai mynd i capel fel-a'r-fel a wnawn ni oherwydd bod dat-cu wedi bod yn flaenor neu mam-gu yn canu'r organ? Efallai oherwydd traddodiad, rydym fel cenedl wedi colli golwg ar beth yw hanfod Cristnogaeth – ffydd yng Nghrist. Yn aml hefyd, rydym yn barod i dalu sylw i grefyddau eraill, gan anghofio ffydd rhywun fel Dewi Sant, ffïgwr sy'n cael ei ddrychafu gennym bob Mawrth y cyntaf.

Gobeithio nad ydym ni'n Gymry tywydd teg – yn barod i arddel ein Cymreictod pan ei bod hi'n ein siwtio ni. Gobeithio hefyd nad ydym ni'n cymryd mantais o'n heglwysi a'n capeli – yn eu defnyddio i gael lluniau pert pan yn priodi, yn bedyddio'n plant er mwyn traddodiad, ac yn barod i weld gweinidog neu offeiriad pan fod angen gwasanaeth angladd.

Ydi, mae traddodiad yn iawn yn ei le, ond mae angen angerdd hefyd.

Cloncen

Apêl Ysgol Cwrt i Fusnesau

Annwyl ddarllenwyr Clonc,

Fel y gwyddoch, mae criw o gyfeillion a chyn-ddisgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn y broses o gyhoeddi llyfr yn crynhoi atgofion a lluniau am yr ysgol. Mae'r gwaith yn dod yn ei flaen yn dda ac mae nifer dda o danysgrifwyr wedi addo prynu'r llyfr.

Er hynny, mae rhywfaint o fwch ariannol cyn y gallwn fentro argraffu, felly rydym yn gobeithio y bydd busnesau sydd â chysylltiad â'r ysgol yn fodlon noddi'r fenter. Os ydych chi'n berchennog ar fusnes o'r fath, byddem yn falch iawn petaech yn ystyried cyfrannu – rydym yn rhagweld y bydd angen rhwng tua £750 a £1,000 i ddod â'r gwaith i fwcwl.

Os nac ydych yn berchennog busnes eich hun ond yn gwybod am fusnesau sydd â chysylltiad â'r ysgol, tybed a fydddech mor garedig â thynnu eu sylw nhw at y cais hwn?

Bydd pawb sy'n noddi yn cael eu cynnwys mewn rhestr yn y llyfr.

Dylai unrhyw siec gael ei gwneud yn daladwy i 'Llyfr Ysgol Cwrtnewydd' a'i anfon ata'i: Luned Mair, Cartref, Alltbylaca, Llanybydder SA40 9ST.

Diolch yn fawr, *Luned Mair*

Apêl am Aelodaeth

Annwyl Gyfaill,

Ddechrau mis Mawrth mae'n wythnos aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, ac felly dyma anfon gair i ofyn i'ch darllenwyr ymaelodi er mwyn cefnogi'r Gymraeg.

Ers mwy na hanner can mlynedd mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn brwydro i sicrhau dyfodol i'r iaith. Rydym wedi ennill llawer ond mae ffordd bell iawn i fynd cyn cyrraedd y nod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i nod y Gymdeithas o greu miliwn o siaradwyr Gymraeg, ond heb ymrwymo i'r camau gweithredu mwy manwl fydd yn sicrhau'r miliwn. Bydd y blynyddoedd nesaf yn hollbwysig o ran sicrhau dyfodol mwy cadarn i'r Gymraeg o safbwynt iechyd, darlledu, addysg a llawer iawn mwy.

Er mwyn llwyddo, mae angen rhagor o aelodau ar Gymdeithas yr Iaith ym mhob rhan o'r wlad. Mae modd i chi wneud gwahaniaeth ac felly dyma ni'n gofyn i chi am eich help. Un weithred fach. Un taliad bach bob mis neu am y flwyddyn fel dych chi'n gallu. Bydd yn gwneud gwahaniaeth a byddwch yn gwybod eich bod wedi helpu sicrhau dyfodol i'r iaith.

Gallwch ymaelodi â'r Gymdeithas drwy ein gwefan, cymdeithas.cymru/ymaelodi, er mwyn talu gyda'ch cerdyn banc, neu mae croeso i chi dalu trwy siec at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Rhodfa'r Môr, Aberystwyth, SY23 2AZ. Mae croeso i chi ein ffonio ar 01970 624501 hefyd, am fwy o wybodaeth neu i drefnu aelodaeth dros y ffôn.

Mae angen eich cefnogaeth er mwyn i ni allu parhau i frwydro dros ddyfodol mwy cadarn i'r iaith.

Ewch ati heddiw i ymaelodi. Os na wnewch chi, pwy wneith?

Yn gywir, *Steffan Webb* (Swyddog Aelodaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)



Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn
yn y papur hwn.



MAWRTH

- 1 Dechrau dathliadau Gŵyl Dewi Llanbed - caffis y dre yn cynnig bwyd Cymreig.
2 Parêd Gŵyl Dewi yn Llanbed - Cychwyn o Fro Pedr am 12.45y.p.
2 Gwasanaeth Byd-eang y Chwirydd yng Nghapel Nonni, Llanllwni am 2.00y.p.
2 Cwrdd gweddi byd eang y Chwirydd yn Eglwys San Pedr am 11.00y.b.
2 Cawl a Chwist Sefydliad y Merched yn Neuadd Llanfair Clydogau am 7.30yh.
2 Gŵyl Offerynnol Urdd Ceredigion yn yr Hen Goleg, Aberystwyth.
2 Cyngerdd Gŵyl Ddewi Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Ysgol Llanllwni yng Nghapel Nonni am 7:30 y.h. gyda phlant yr ysgol, Owain Davies ac Ar Wasgar. Tocynnau yn £5, plant cynradd am ddim.
3 Gig Gŵyl Dewi yn Neuadd Fictoria am 8.00y.h. gyda Fleur de Lys, Mei Emrys a'r Band a Bwca.
4 Sioe Ffasiwn a The Prynawn gyda Duet a Lan Llofft yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 3.00y.p. Tocynnau £10 oddi wrth 07875 289431 neu 07807 238441. Elw tuag at y Neuadd a Beiciau Gwaed Cymru.
5 C.Ff.I. Pontsian yn cynnal noson o Bantomeim yn Ysgol Bro Teifi.
8 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled yn Ysgol Bro Pedr.
9 Cyngerdd CFfi Llanllwni yn Neuadd Ysgol Bro Teifi am 7.30yh.
9 CFfi Cwmann yn cyflwyno pantomeim yng nghwmni Clwb Felinfach yn Neuadd Sant Iago Cwmann am 7yh.
9 Cystadlaethau Chwaraeon Rhyng-Golegol Cymru ar gampws Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbed.
10 Eisteddfod Ryng-Golegol Cymru ym Mhrifysgol Y Drindod Dewi Sant, Llanbed.
10 Gig Rhyng-Gol gyda'r Cledrau, Fleur de Lys, Gwilym a DJ Garmon yn Undeb Myfyrwyr, Llanbed am 7.30yh.
10 Bore coffi yn Festri Capel y Groes, Llanwnnen, rhwng 10.00yb a 12.00yp. Elw tuag at Mind Cymru.
10 Diwrnod Agored 'Mind' yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd o 2.00-4.00yp. Yr Undodiaid - Yn gweithio dros iechyd meddwl gwell i bawb.
11 Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 5.30 a nid am 5.
13 Noson Camau nesaf a gynhelir yn Neuadd Ysgol Bro Pedr, Llanbed, rhwng 7 a 9y.h.
13 Pantomeim CFfi Llanddewi yng nghwmni Clwb Cwmann yn Theatr Felinfach am 7.30yh.
14 Merched y Wawr yn Dathlu Gŵyl Ddewi- Te prynawn yn yr Hedyn Mwstard am 3.00y.p.
14 Arwerthiant Blynnyddol Cymdeithas Chwirydd Aberduar yn y Festri am 7 o'r gloch.
14 Cynhadledd Harmoni Llanbed y Neuadd y Celfyddydau Y Drindod Dewi Sant, Llanbed 10.00yb - 5.30yp.
15 Noson Bantomeim C.Ff.I. Bro'r Dderi yng nghwmni Clwb Llanllwni yn Theatr Felin-fach am 7.00y.h.
16 Gŵyl Ddawns yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
16 Cinio'r Gamp Lawn i ddathlu degawd Shane Williams yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 7.00y.h.
16 Darlith Goffa Cliff Tucker yn Narlithfa Tucker Prifysgol y Drindod Dewi Sant Llanbed am 7.00yh gyda Peter Florence, cyfarwyddwr Gŵyl y Gelli, yn traddodi (yn Saesneg): 'It's all true' gyda lluniaeth i ddilyn.
17 Marchnad grefftau yn Neuadd Llanfair Clydogau 11.00yb-3.00yp.
22 Sesiwn hyfforddi pêl-rwyd am ddim yng Nghanolfan Hamdden Llambled 7.30-9.00yh.
22 Lansio I GOFIO'R GAFAFAU yn Festri Brondeifi, Llanbed am 7.30yh.
23 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Bont.
24 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Bont.
25 Cymanfa Ganu Corisma er cof am Dilys yng Nghapel Shiloh Llanbed am 5.00yh. gyda Chôr Cwmann, CFfi Llangeitho a Deuawd Bryngwyn, a lluniaeth ysgafn i ddilyn.
26 Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni yn cynnal Bingo Pasg am 8.00yh yn Nhafarn Y Talardd.
27 Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo yn y Clwb Rygbi am 8.00y.h.
27 Amgueddfa Llanbed yn ail-agor.
29 Noson Chwarae Bingo Cylch Meithrin Carreg Hirfaen i ferched yn unig yng Nghanolfan Cwmann am 7.00yh.

EBRILL

- 1 Ras Teifi 10 gan ddechrau o Glwb Rygbi Llanbed am 12yp.
2 Taith Tractorau o Ddolgran, Pencader am 10.00y.b. Elw at Gŵn Tywys i'r Deillion. Tom Lewis 01559 384279.
4 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes, Llanwnnen
4 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llanbed am 4.00y.p.
8 Rihysal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5.00y.h.
14 Cyngerdd yn Ysgol Dyffryn Cledlyn. Elw i'w rannu rhwng C.Ff.I. Ceredigion ac Ysgol Dyffryn Cledlyn.
15 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Alltbylaca. Plant ac Ieuenctid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5.00y.h.
19 Sesiwn hyfforddi pêl-rwyd am ddim yng Nghanolfan Hamdden Llambled 7.30-9.00yh.
20 Dawns Dewis Brenhines Carnifal Llanybydder yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
22 Taith Dros Fywyd, Clefyd Arennau Cymru, 3 milltir o amgylch Parc-y-rhos am 10.30y.b. o hen Ysgol Coedmor.
22 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Alltbylaca. Plant ac Ieuenctid am 2.00y.p a'r Oedolion am 5.30y.h.
24 Eisteddfod Rhanbarth Celf a Chrefft yng Ngwersyll Llangrannog.
27 Noson Goffi Flynyddol yn Festri Aberduar am 7.00y.h. dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder.
28 Her 21 milltir Aberaeron i Lanbed gan ddechrau am 9.00yb.
29 Taith Gerdded Flynyddol - dechrau o sgwar gwaelod Cwrtnewydd am 10yb a nôl i Festri Capel Seion am luniaeth. Elw tuag at A&E Glangwili. Y daith i ddilyn llwybr Pingos, Glanyrafon a hanes yr ardal.

MAI

- 1 Holi ac ateb Comsiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7.30yh.
4-7 Penwythnos Dartiau Llanbed.
5 Eisteddfod Gadeiriol Capel Y Fadfa Talgarreg. Manylion: Emyr 01545 590383 neu Enfys 01545 590295.
7 Rasys Dyffryn Cledlyn i ddisgyblion cynradd, uwchradd ac oedolion. Ras gyntaf am 12.45y.p. yn yr ysgol.
7 Gŵyl Calan Mai Pumsaint. Sioe, Carnifal a mwy. Manylion pellach wrth Mair ar 01558 650309.
11 Noson gyda'r Welsh Whisperer yng Nghlwb Rygbi Llanbed gyda Chymdeithas Amaethyddol Llanbed.
12 Rali C.Ff.I. Sir Gâr.
13 Rihysal y Bedyddwyr ym Methel Silian am 2.00y.p.
20 Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbed am 5.00y.p. yn Salem Caio.
20 Ras Fynydd Sarn Helen gan ddechrau o Glwb Rygbi Llanbed am 10.30 ac 11.00yb.
27'It's a Knockout' Llanybydder.

Pen-blwydd Hapus

Pen-blwydd hapus iawn i Briallt Williams ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw yn ddiweddar. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

Twmpath Dawns

Mae Merched y Wawr Cangen yr Hafod yn trefnu twmpath dawns a chawl yn Neuadd yr Hafod ar nos Fercher y 7fed o Fawrth am 7.30. Croeso cynnes i bawb!

Diolch

Hoffai Briallt Williams ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu rhoddion a'u cyfarchion caredig ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Cwrtnewydd

Gwellhad Buan

Gobeithio y bod Mrs Nanna Jones, Garth, yn teimlo'n well yn dilyn ei hanffawd ddiweddd mis Chwefror. Cofion cynnes atoch am wellhad buan.

Cyflwynydd newydd

Ymhyfrydwn yn y ffaith fod Meleri Williams, Clyncoch gynt, yn un o gyflwynwyr newydd y rhaglen 'Cefn Gwlad'. Bydd i'w gweld ar S4C yn aml o hyn ymlaen. Llongyfarchiadau mawr i ti Meleri a phob hwyl gyda'r gwaith yma.

Clwb Clonc

Mawrth

- £25 rhif 427:
Mrs Ann Roberts,
Brynview, Parcyrrhos,
Cwmann.
£20 rhif 466:
Mrs Eirlys Thomas,
Gwernyfed, 50 Heol-y-Gaer,
Llanybydder.
£15 rhif 502:
Ifor Williams,
10 Ffynnonbedr, Llambled.
£10 rhif 36:
Mrs Siwan Richards,
9 Cwrt Dulas, Llambled.
£10 rhif 407:
Tommy Price,
Gelliwrol, Cwmann.
£10 rhif 290:
Mrs Megan Jones,
Llaethliw, Neuaddlwyd.
£5 rhif 377:
Mrs Gwyneth Morgan,
Llety'r Dderwen, Cwmann.

Cwmann

Taith Dros Fywyd

Cynhelir taith 3 milltir o amgylch Parc-y-rhos i godi arian tuag at Sefydliad Aren Cymru, ar fore Sul 22ain Ebrill, gan ddechrau o Ysgol Carreg Hirfaen am 10.30yb. Croeso cynnes i bawb.

Athletau



Cafodd Beca Roberts, Pengelli, Parc-y-rhos, benwythnos llwyddiannus ym Mhencampwriaethau Athletau Dan Do Gorllewin Cymru yn ddiweddar. Enillodd Beca set gyflawn o fedalau tra'n cystadlu yn adran y merched dan 17 oed. Cafodd fedal aur yn y naid uchel, medal arian dros y clwydi ac efydd yn y naid hir. Da iawn wir!

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Chwefror 2018: 1. Mr W. J. Mason, 21 Treherbert, Cwmann, 130. 2. Mr Tom James Caeralaw, Cwmann, 115. 3. Miss Lois Williams, Crynffryn, Cwmann, 53. 4. Mr Chris Lloyd, 7 Heol-Hathren, Cwmann, 147. 5. Mrs Wendy Mason, 35 Heol-Hathren, Cwmann, 103. 6. Mrs V James, Caeralaw, Cwmann, 126. 7. Mr Dafydd Davies, Gerynant, Drefach, 24.

Babanod

Llongyfarchiadau i Tegwen a Gwyn Williams, Wyngarth ar ddod yn dadcu a mamgu i'w hŵyr bach - mab i Catrin a Chang yn y Barri. Hefyd, llongyfarchiadau i John a June, Maesteg ar enedigaeth eu hŵyr bach, mab i Helen a Daniel yng Nghaerdydd.

Yn ystod y mis ganwyd merch fach i Rhian a Sion, Heol Llanfair, wyres i Eleanor a Neville Davies, gor wyres i Danny ac Ann Davies, Brynteifi a Muriel Davies, 2 Nantglyn a gor gor wyres i Mrs Lloyd, 14 Heol Hathren.

Hefyd, llongyfarchiadau i Huw a Lynda, Verlands ar enedigaeth eu hŵyr bach, mab i Dion a Leanne.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Mrs Mag Lewis [gynt o Bakery Cwmann] ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad adeg colli mam, mamgu a hen famgu annwyl.

Diolch i'r Parchedig Goronwy Evans, Archddiacon William Strange a'r Parchedig Alun Wyn Dafis am eu gwasanaeth ac i Mrs Gwenda Richards ar yr organ.

Diolch i Maureen, Glenys, Glyn a Sylvia am y blodau yn y capel. Hefyd, i Delyth Pantri am baratoi bwyd, Nicola am y blodau ac i Gwilym Price ei fab a'i ferched, am eu gwasanaeth.

Diolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Dementia UK.

Côr Corisma

Yn dilyn marwolaeth Dilys, un o aelodau ffyddlonaf y côr, 'rydym wedi penderfynu cynnal Cymanfa Ganu, er cof amdani. Nos Sul, y 25ain o Fawrth fydd dyddiad y gymanfa, yng Nghapel Shiloh, Llanbed. Yn cymryd rhan bydd merched Corisma, Côr Meibion Cwmann, aelodau CFFI Llangeitho a Deuawd Bryngwyn. Bydd y cyfan yn dechrau am 5 o'r gloch y prynhawn, ac fe fydd croeso i bawb ymuno gyda ni am luniaeth ysgafn ar y diwedd. Pris y rhaglen fydd £5, gyda'r elw'n mynd tuag at elusen Nyrsus Macmillan. Bydd y rhaglen ar gael yn fuan trwy aelodau'r côr. Os hoffech gefnogi, lledaenwch y neges a dewch yn llw - bydd croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Bethel Parc-y-rhos

Rydym wedi cael siaradwyr diddorol iawn yn y Gymdeithas eleni. Cafwyd noson hynod ddiddorol yng nghwmni Wish Gadula ar yr 16eg Hydref. Gŵr bonheddig, diymhongar a rannodd ddelweddau unigryw o'i fywyd, gwaith a hamdden o Lanycrws i Everest.

Braf oedd cael cwmni Eleri Twynog ar 18fed Rhagfyr. Rhannodd ei phrofiad o fynd i Bolivia i weld gwaith Cymorth Cristnogol. Diolch hefyd i Sara Wyn am ei chymorth.

Ar y 29ain Ionawr, daeth Ann Bowen Morgan i'n diddanu gyda'i thelyn a'i straeon difyr yn Festri Bethel. Ac ar y 19eg Chwefror cafwyd cinio'r Gymdeithas yn Nhafarn y Brunant, Caio lle daeth dwy chwaer leol a dawnus sef Sara Mair a Carys Haf i ganu cymysgedd hyfryd o ganeuon traddodiadol a chaneuon sioeau cerdd.

Edrychwn ymlaen at gwmni Dwynwen Llywelyn ar y 19eg Mawrth a gobeithir trefnu taith y Gymdeithas ar y 9fed Mehefin.

Clwb 225 Pwyllgor Pentref

Mis Chwefror :1. Tracey Edwards, Glynview, Cwmann, 206. 2. Eirian James, Mark Lane Cafe, Llambled, 5. 3. Aneurin Davies, Ty Capel, Parc-Yr-Rhos, Cwmann, 188. 4. Helen Davies, Tanyresgair, Cwmann, 84. 5. Sian Jones, Bryndolau, Cwmann, 16. 6. Sion A Cathy Griffiths, Bryn-Yr-Eglwys, Llambled, 37. 7. Joanna Morgan, Llys Penparc, Llambled, 148.

Llanfair Clydogau

Dosbarthiadau Cyfrifiaduron



Mae llawer o'r ardal wedi manteisio ar y cyfle i gael gwersi gan Helen Thomas o Llambed. Ers pan mae cysylltiad WiFi gyda ni i'w ddefnyddio yn y neuadd mae Helen wedi rhedeg 16 dosbarth, gyda tua wyth i ddeg person yn troi i fyny bob tro. Maent wedi elwa o'r wybodaeth i allu mynd ar y we a defnyddio'r rhyngwrwyd eu hunain, - rhai am y tro cyntaf.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd noson ddiddorol iawn o sbri a dirgelwch ar Ionawr 25ain o dan arweiniad Debbie White o Gellan. Pwrpas y noson oedd datrys posau trosedd trwy gyfres o dasgiau a chliwiau. Roedd pawb wedi mwynhau noson anghyffredin o ddirgelwch a sbri. Rhoddwyd y bwyd ar y noson gan Sally, Eleri ac Aerwen.

Gwellhad

Pleser oedd clywed fod Paula Barker, Tycoch, wedi dod adre o ysbyty Glangwili, a dymunwn iddi wellhad llwyr yn fuan. Rydym yn edrych 'mlan i'w gweld nôl yn chwarae'r organ yn yr eglwys, ac rwy'n siwr bydd merched grŵp 'Whine and Twine' yn falch iawn i'w chroesawu yn ôl.

Band Eang Fibr

O'r diwedd mae band eang gor-gyflym wedi cyrraedd Llanfair, ond mae'r darlun o bwy all ei gael yn un cymysg. Mae hyn yn dibynnu ar ble mae 'Open Reach' wedi rhoi y cysylltiadau ar y pyst teliffon. Mae map i'w gael gan BT yn dangos pwy ddylai gael eu cysylltu. Serch hynny mae rhai yn cael anhawster mawr er eu bod ar y map yma. Mae Ben Lake, ein AS, yn casglu enwau rhai sy'n cael problem yn yr ardal yma ac ardaloedd gwledig eraill Ceredigion, ac yn mynd i dynnu sylw at hyn gyda llywodraeth Cymru. Cysylltwch â Ben os ydych yn un o'r rhai yma.

Gohebiaeth



Dau Hanner Brawd

Dyma deitl y ddrama gerdd newydd a berfformir gan Gwmni Myrddin yn y Gwanwyn. Ysgrifennwyd y ddrama gan Nan Lewis a chyfansoddwyd y gerddoriaeth gan Eric Jones. Cymerir rhan y prif gymeridau gan Helen Gibbon, Sioned Beynon a Dafydd Llŷr Davies.

O'r Hen Destament y daw'r hanes sy'n sail i'r ddrama. Hanes Abraham yn derbyn galwad Duw i adael Ur y Caldeaid, man ei eni a bro ei fagwraeth, a theithio i diriogaeth hollol ddiarth ac anghyfannedd.

Perfformir "Dau Hanner Brawd" yn Theatr y Lyric ar nos Iau, Ebrill 26ain a nos Wener, Ebrill 27ain am 7.30 o'r gloch. Gellir archebu tocynnau drwy ffonio 08452263510

Cyngerdd "Yn Groes i'r Graen" - yn seiliedig ar y Bregeth ar y Mynydd

Noson o sgwrs a chaneuon gyda Garth Hewitt. Caneuon am heddwch a chyfiawnder gan ddyn sydd wedi treulio oes yn sefyll dros dlodion a rhai gorthrymedig y byd. Cyfle unigryw i glywed canwr sydd wedi perfformio yn y Grand Ole Opry yn UDA ac o flaen miloedd o bobl mewn gwyliau awyr agored. Tocynnau - £8 (Plant oed cynradd £6 wrth y drws)

7pm Nos Wener 9fed Mawrth - Capel Priordy CAERFYRDDIN gyda "Seingar" - tocynnau yn Siop y Pentan.

7pm Nos Sadwrn 10fed Mawrth - Morlan Aberystwyth gyda "Côr Gobaith" - tocynnau yn y Morlan.

Trefnir gan "Coda Ni" fel rhan o daith trwy wledydd Prydain "Yn Groes i'r Graen" a drefnir gan yr Amos Trust.

Ymholiadau/tocynnau gan meinir@cadwyn.com (01559-384378)

Llanybydder

Bingo

Mae Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo ar y 27ain o Fawrth yn y Clwb Rygbi am 8.00 o'r gloch.

Eglwys San Pedr

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Cyngor yr Eglwys Blwyfol ar yr 22ain o Ionawr 2018. Yn bresennol: Y Parch. Suzy Bale (Cadeirydd); Eurwyn Davies; Susan Evans (Warden yr Eglwys); Avril Jones (Trysorydd); Christine Rogers; Ann Smith; Eleri Thomas (Ysgrifenyddes). Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Val Wood (Warden y Ficer), Heather Jones ac Irene Pollard.

Ystyriwyd unwaith yn rhagor to'r Ffestri gan obeithio derbyn grant yn y dyfodol i gynnwys cyfleusterau cyhoeddus o fewn yr Eglwys.

Cynhelir nifer o weithgareddau Codi Arian: Mis Mai: Noson o Fingo, Clwb Rygbi Llanybydder, dan arweiniad Eurwyn Davies. Taith Gerdded: Awst – dyddiad i'w gadarnhau.

Trafodwyd Trip yr Eglwys. Ystyriwyd ymweld â Soar y Mynydd, Mwnt, Cartref William Williams Pantycelyn, Abaty Ystrad Fflur neu Llanerchaeron.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 16eg o Ebrill 2018 - Ffestri'r Pasg am 7.00pm. Croeso Cynnes i Bawb.

Y mae'r Clwb 100 wedi ail ddechrau. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi unwaith yn rhagor ac i Mrs Susan Evans, Mr Eurwyn Davies a Mrs Avril Jones am gasglu'r arian.

Enillwyr Mis Chwefror 2018: Mr Dilwyn Gibby £15; Mr William Thomas £10; Sheila & Derek Smith £5.

Dymunir yn dda i Grant Rees a Gemma Cotton sydd yn priodi yn yr Eglwys ar y 5ed o Fai 2018.

Dyma wasanaethau'r Wythnos Sanctaidd: Sul y Blodau - 25.03.2018, Eglwys Llanwnnen 10.30am - Gwasanaeth Undebol; Nos Iau Cablyd- 29.03.2018, Eglwys Llanwnnen 7.00pm - Gwasanaeth ar gyfer 4 Eglwys y Plwyf; Gwener y Groglith - 30.03.2018 - Eglwys Llanybydder, 2.30pm; & Sul y Pasg -1.04.2018 - Eglwys Llanybydder, 8.30am.

Defnyddio'n Hamser yn Ddoeth oedd ffocws Gwasanaeth y Gair ar yr 11eg o Chwefror. Cymharwyd ein hamser i Fanc, Banc Amser, - ar ôl i ni wario'r amser ar ôl bob diwrnod, sef 86,400 eiliad, ni allwn ei gael yn ôl. I fuddsoddi, mwynhau, rheoli a thrysori ein hamser rhaid ceisio cydbwysedd gwaith, gorffwys, addoli a hamddena.

Yn yr Ysgrhythur dywedir bod amser i bob peth – Pregethwr: Pennod 3 Adnodau 1-14. Y mae tymor i bob peth ac amser i bob

gorchwyl dan y nef: amser i eni ac amser i farw; amser i blannu ac amser i ddiwreiddio'r hyn a blannwyd ayyb. Ond nid yw'n sôn am amser i wastraffu.

Darllenwyd y gerdd gan John Gwilym Jones sef Mesur Dyn; sut y mae Duw yn mesur beth wnethom â'n hamser, drwy helpu ein cyd-ddyn, ...Nid faint a wnaeth ennill, ond faint fyddai'n rhoi, Ac a fyddai'n aros pan oedd eraill yn ffoi...Nid uchder ei feddwl, ond dyfnder ei ras, A'i gymeriad tu fewn, nid ei wên tu fas....Ac y bu yn oleuni mewn ambell nos, A throchi ei hun i ddwyn cyfaill o'r ffos.

Sylwyd bod nifer o bobl heddiw yn brysio ac yn ymladd y cloc, fel ffordd o fyw. Arhosant i fyny'n hwyr ac yna cysgu mor hwyr ag y gallant cyn rhuthro ar garlam i'r gwaith, gan lyncu brecwast afiach yn y car wrth osod eu colur (neu defnyddio ellyn) a siarad ar eu ffôn symudol ar yr un pryd! Nodwyd nad oedd yr Iesu yn brysio gan wneud amser i'r adar, blodau ac i fendithio plant bychain. Cyfeiriwyd at y darlenniad o lyfr Luc, Pennod 10, Adnodau 38-41 yn sôn am yr Iesu yn ymweld â chartref Mair a Martha; roedd Martha yn rhy brysur i eistedd a gwrando ar yr Iesu. Mair wnaeth y dewis doeth gan glustnodi amser i'r Arglwydd. Anogwyd y gynulleidfa i ddilyn esiampl Mair gan ddechrau â 5 munud yn feunyddiol mewn addoliad o weddi, darllen yr Ysgrhythur, gwrando ar gerddoriaeth neu myfyrdod; gall y cyswllt ysbrydol â'r Arglwydd yn ystod yr amser hwn newid ein meddylfryd, i gyrraedd lle o optimistiaeth, gobaith a llawenydd.

Dymunir yn dda i bawb o'r Eglwys sydd heb fod yn teimlo'n hwylus yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Wyn Thomas, Brynlllo Fawr, yn teimlo dipyn yn well yn dilyn ei law driniaeth yn Ysbyty Bancyfelin yn ddiweddar.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Paul, Denise a Siôn sydd wedi symud o Bentop lawr i'r pentref i Dwylan yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Morfydd, Eleri, Bronwen a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd ar yr aelwyd, y cardiau niferus, galwadau ffôn, blodau a'r rhoddion a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thadcu annwyl sef Rhys Evans, 82 Bro Einon.

Fel teulu, gwerthfawrogir hyn yn fawr iawn.

Dymuna Wyn, Brynlllo, ddiolch am y dymuniadau gorau a'r holl alwadau ffôn a dderbyniodd ar


Diabetes UK Cymru



Cydweithwyr cwmni Western Power Llanfihangel ar Arth yn cyflwyno sic o £620.00 tuag at Diabetes UK Cymru i swyddogion Cangen Llanybydder o'r elusen, arian a godwyd ganddynt mewn digwyddiad dros y Nadolig. Diolch iddynt am eu hymdrech.

Diolch hefyd i Hefin a Megan Evans, Tafarn Glanyrafon, Talgarreg am sic o £1000 i'r gangen. Gwerthfawrogwn eich cyfraniad.

Ymddeoliad



Dymuniadau gorau i Wil Evans, Rylwyn, ar ei ymddeoliad yn ddiweddar ar ôl bron i 30 mlynedd o wasanaeth yn gyrru lori i Mansel Davies a'i Fab. Iechyd da i'r dyfodol.

ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Hefyd am y cardiau, anrhegion a'r ymweliadau, gan ddiolch o galon i bawb am y consyrn amdano.

Noson Bingo

Cynhelir Noson Bingo gyda Ysgol Feithrin Llanybydder ar nos Fawrth, Mawrth 27ain yng nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus i William Evans, Rylwyn, Llanybydder a ddathloddei ben-blwydd yn 65 mlwydd oed ar ddiwedd Chwefror.

Alltyblaca

Cydymdeimlo

Ar ddiwedd mis Chwefror clywyd y newyddion trist am farwolaeth Tommy Williams, Nantfach. Roedd wedi cael iechyd da ar hyd y blynnyddoedd. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

Llanllwni

Eisteddfod Dihewyd



Yn Eisteddfod Dihewyd a gynhaliwyd Nos Wener, Ionawr 26ain, enillydd yr Unawd ar unrhyw offeryn cerdd (heblaw'r piano) i oedran cynradd oedd Alwena Mair Owen, Llanllwni. Hefyd enillodd y wobr gyntaf am ganu'r piano i oedran cynradd a chyntaf am lefaru 8-10 oed.

Ysgol Llanllwni

Y tymor yma yn ein sesiynau Urdd rydym wedi cael Bingo, Gêmau Gwirion a Helfa Drysor.

Bu'r Adran Iau yn ymweld â choleg Aberystwyth ar ddechrau'r tymor er mwyn creu mascot i Siarter Iaith yr Ysgol.

Treuliodd saith o blant, sef Tomasz, Connor, Elan, Mared, Alwena, Tilly a Tudur dridiau yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd, gan fwynhau'r gweithgareddau amrywiol a chymdeithasu â phlant eraill. Diolch i Miss Evans am fynd gyda'r plant.

Casglwyd £58 tuag at Uned Cancr Felindre trwy wisgo dillad coch a chyfrannu £2.

Bu dosbarth y Cyfnod Sylfaen ar drip addysgiadol yn ymwneud â ffermio, gan mai "Anifeiliaid Mawr a Bach" yw thema'r tymor yma. Buom yn Amgueddfa Abergwili yn gweld yr hen fwthyn a'r gegin. Diolch i Gavin am roi hanes y bwthyn ac esbonio sut oedd yr hen offer yn cael eu defnyddio. Aethom ymlaen i'r farchnad anifeiliaid yn Nantyci lle buom yn gwyllo gwartheg yn cael eu gwerthu a chael cinio yn y caffi. Diolch i Iona a'i staff am eu croeso. Ymlaen â ni wedyn i Fferm Alltgyrddin lle gwelsom y gwartheg godro, y parlwr godro, hen offer y fferm a gwers am gynnyrch y fferm. Diolch i Mr. a Mrs. Richards am yr holl wybodaeth. Cyrhaeddom nôl i'r ysgol wedi cael diwrnod i'w gofio!

Thema yr Adran Iau yw "Yr Ail Ryfel Byd". Daeth cwmni "Mewn Cymeriad" mewn gan roi perfformiad diddorol a bywiog o hanes y Blitz yn Abertawe.

Ar ddiwrnod "Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn ddiogel" buom yn trafod y pwnc yn ystod Sesiynau Cylch, a gwyllo Pwerbwyt.

Ar Ddiwrnod Gwyllo Adar aethom allan i weld pa adar oedd i'w gweld. Yn y dosbarth buom yn edrych ar luniau adar mewn llyfrau ac ar y Wê, tynnu lluniau a chreu graffiau.

Bu Elan yn cystadlu yng nghystadleuaeth Sirol Cogurdd Cynradd yr Urdd. Da iawn ti Elan.

Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol wrthi'n trefnu cyngerdd Gŵyl Ddewi fydd yn cael ei gynnal Nos Wener, Mawrth 2il yng Nhapel Nonni, gan ddechrau am 7:30 y.h. Yr artistiaid bydd plant yr ysgol ac "Ar Wasgar"- grŵp o fechgyn o ardal Dyffryn Cothi, ac yn arwain y noson bydd Mr. Owain Davies, Gwndwn. Pris tocyn yw £5 - ar gael o'r ysgol neu wrth y drws, gyda phlant oed cynradd am ddim. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol: Mis Chwefror: 1af £10 - Malcolm Tullock, Maesycreigiau. 2il £5 - Janet Howells, Gwarallt,

Llanllwni. 3ydd £5 - Tracey Pendle, Pencader.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Mrs Eirian Williams, Cwmawel, ben-blwydd arbennig yn ystod mis Chwefror. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Parafeddyg



Llongyfarchiadau i Ffion Rees, Llys-y-Wawr ar raddio fel Parafeddyg a derbyn Diploma mewn Gwyddor Parafeddygol, ym Mhrifysgol Abertawe. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ei swydd newydd fel Parafeddyg yng Ngheredigion. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Canlyniadau Clwb 100 mis Chwefror: 1af £15 Mali Evans (54); 2il £10 Dewi Thomas (136); 3ydd £10 Lewey Thomas (61). Diolch i bawb am gefnogi.

Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod mis Chwefror cawsom y pleser o gwmni'r Parchedig Ganon Aled Williams, bellach wedi ymgartrefu'n Llanllwni. Cawsom hanes ei gyndeidiau fel cefndir wrth iddo ein cyflwyno i'w hunangofiant, 'Cerrig Milltir'. Arweiniodd ni ar daith ei fagwraeth, a'i yrfa, o Bontypridd i Aberystwyth, o Gaerdydd i Lanelli, Boncath a nifer o ardaloedd eraill yn y de, cyn gorffen ei alwedigaeth yn ardal Llanbed. Roedd hi'n orig ddiddorol iawn yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Edith. Dymunwn ben-blwydd hapus arbennig i Eirian, a llongyfarchiadau i Ifora ar ddod yn famgu unwaith eto. Mae rhai aelodau yn dioddef o salwch, ac fe'u cedwir yn ein gweddïau.

Yn dilyn ei phen-blwydd yn 90 oed mae Mrs. Ifora Parry am ddiolch i bawb am eu holl garedigrwydd ar achlysur ei diwrnod arbennig. Gwerthfawroga bob cymwynas.

Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Bingo Pasg ar Nos Lun 26ain o Fawrth am 8yh yn nhafarn Y Talardd. Croeso cynnes i bawb!

CFfl Llanllwni



Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i nifer o aelodau'r CFfl yw'r gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus - ond yn y Gymraeg y tro hwn. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn y cystadlaethau, ac yn arbennig i'r ddau dim adran ganol am ddod yn gyntaf - (Sioned Bowen, Owain Davies a Sioned Howells) ac yn drydydd (Betsan Jones, Ifor Jones a Jac Jones). Llongyfarchiadau mawr i Owain Davies am ddod i'r brig fel yr unigolyn gorau yn yr adran ganol. Mi fydd Owain Davies a Sioned Howells yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir dros Gymru ac fe fydd Ifor Jones a Sioned Bowen yn mynd wrth gefn. Llongyfarchiadau hefyd i'r Adran Iau (Mared Phillips, Lowri Davies a Siriol Howells) am ddod yn gydradd ail, gyda Lowri Davies yn mynd ymlaen wrth gefn i gynrychioli'r Sir yng Nghymru. Mae hi wedi cyrraedd yr adeg o'r flwyddyn lle mae'n amser cynnal cyngerdd y clwb, gydag eitemau amrywiol gan aelodau'r clwb, sydd yn cynnwys pigion o'r Eisteddfod a'r Pantomeim. Fe fydd y gyngerdd eleni ar Nos Wener, y 9fed o Fawrth, yn Neuadd Ysgol Bro Teifi, Llandysul am 7:30yh. Noson o adloniant i'r teulu cyfan - dewch yn llw!

Grŵp Darllen y Talardd



Daeth Heiddwen Tomos, Pencarreg, i gyfarfod mis Ionawr o Grŵp Darllen y Talardd, Llanllwni. Nofel Heiddwen, Dŵr yn yr Afon, oedd dan sylw a braf oedd trafod gwaith awdur lleol a hithau'n bresennol. Esboniodd Heiddwen sut aeth hi ati i ysgrifennu'r nofel ac yna cafodd pawb gyfle i'w holi a thrafod ymhellach. Noson ddifyr dros ben.

Ar Ddydd Sadwrn 3ydd o Chwefror trefnwyd bws i Gaerdydd i wyllo gêm Cymru yn erbyn yr Alban. Gwnaed elw o £420 i'r Cylch. Diolch i Glenys am drefnu a diolch i'r rhai wnaeth gefnogi!

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol gynradd, rhwng 8.45 a 12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07377781977 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau yn ystod y tymor, rhwng 10-12yb ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofawyr, mamgus a thadcu i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Gwellhad Buan

Dymuniadau Gorau am wellhad buan i Tom Harries, Castle View, sydd yn yr ystyby ar hyn o bryd.

Llanbedr Pont Steffan

Camau Nesaf tu allan i'r UE

Mae nifer o eglwysi Llanbed, a Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), yn cydweithio i roi cyfle i bobl ein hardal ni, rhai o bob cefndir a ffordd o fyw, wrando ar ein gilydd, a rhannu gweledigaeth o'r Gymru rydym am ei gweld yn y cyfnod ôl-Brexit.

Ar ôl sylwadau agoriadol gan ein cadeirydd, Dylan Iorwerth (ond nid darlith fydd hi!) bydd cyfle i ddewis pa grŵp sgwrs i ymuno ag e ar gyfer prif ran y noson, er mwyn trafod yn benodol un o'r canlynol: Addysg, yn cynnwys addysg uwch; Amaethyddiaeth a bywyd gwledig, yr economi a chyflogaeth leol; Dinasyddiaeth, hunaniaeth a hawliau dynol; Mudo a hawl pobl i symud yn rhydd; Perthynas Cymru â'r byd (Datblygu rhyngwladol, masnach deg, cadw'r heddwch...)

Er mai aelodau'r grŵp fydd yn pennu cynnwys y trafod, efallai y byddai'r grŵp Amaethyddiaeth a bywyd gwledig, er enghraifft, yn meddwl ystyried pynciau fel ein gobaith am gyfleoedd i'n pobl ifainc – mynd i ffwrdd neu aros yn lleol; ac mewn amaeth, beth yw'r cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu bwyd a chadwraeth, ac a fydd sicrhau hynny yn haws neu'n fwy anodd i'r dyfodol. Neu fe allai aelodau'r grŵp ddymuno mynd i gyfeiriad arall yn llwyr!

Ar ôl egwyl fer, ac yna dod yn ôl yn grwpiau, bydd y trafod yn parhau, gan ofyn: Beth Nesaf?

Bydd y noson yn cael ei chynnal yn neuadd Ysgol Bro Pedr ar nos Fawrth 13 Mawrth o 7yh hyd at 9yh, ac mae croeso i bawb sydd â diddordeb i gyfrannu i'r sgwrs. Y gobaith yw y bydd amrywiaeth helaeth o'n cymdogion a'n cyd-ddinasyddion o bob cefndir yn dod. Bydd y noson yn ddwyieithog, Cymraeg a Saesneg, a bydd y grwpiau sgwrs yn cael eu cynnal ar wahân yn y ddwy iaith.

Felly! Mae gwahoddiad i chi: plis dewch, a plis pasiwech y neges ymlaen i eraill a allai fod â diddordeb!

Diolch

Dymuna Mr Aneurin Jones, Trefina, Tegryn a'r teulu ddiolch yn fawr i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth Mrs Sallie Jones, Hathren. Diolch yn fawr hefyd am y cyfraniadau hael o £2,501 a fydd yn cael eu trosglwyddo i Sefydliad Prydeinig y Galon ac Ymchwil Motor Neurone. Diolch o galon i bawb.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Betty Davies, 12 Teifi Terrace ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad, y cardiau, a'r blodau a dderbyniwyd

adeg colli Betty. Codwyd swm o £674.40 tuag at uned 'Cardiac Intensive Therapy' yn ysbyty Treforys.

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod olaf ond un y Cylch Cinio am y tymor hwn, ar nos Iau y cyntaf o Chwefror.

Croesawodd ein Llywydd, Richard Marks, gynulliad sylweddol o aelodau a hefyd ein gŵr gwâdd, y Bnr Dai Rees Davies, Rhydlewis. 'Roedd 'na naws eithriadol o agosatrwydd yn ein plith o'r cychwyn.

Does dim angen dweud i ni fwynhau pryd ardderchog o fwyd a wnaeth ein paratoi am wledd ychwanegol, sef trafodaeth dan y teitl "Y dwys a'r digri". Buan y deallwyd addased oedd y teitl. Cyn cyrraedd, 'roedd y gŵr gwâdd wedi rhoi sialens i ni i gyfansoddi limrig gan ddefnyddio y linell sylfaenol - "Wrth fynd o'r Llew Du un nos Wener". Cafwyd ymateb eithriadol gyda 30 o limrigau, a'r beirniad yn canmol y safon. 'Doedd dim coron na chadair ond derbyniodd y buddugwr – Twynog - flwch sylweddol o felysion trwy law a charedigrwydd ein Is –Lywydd, y Bnr Eifion Williams. Fel mae'n digwydd, 'roedd yna arwyddocâd arbennig iawn i'r wob. Hwyrach mae dyma'r nwydd olaf a welir yn tarddu o un o siopau hynaf ac anwylaf ein tref. Ie, Crown Stores neu ar dafodau'r mwyafrif, "Siop Williams Bach". Hir a rhwydd hynt i'r teulu oll.

Wedi beirniadaeth y limrig, clywsom gan ein siaradwr hanesion cymeriadau a digwyddiadau diddorol dros ben. Daethant drwy gyfrwng limrigau, sonedau a barddoniaeth amrywiol. Cynnyrch y siaradwr ei hun oedd y mwyafrif ac yntau yn gyn enillydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Buan y deallwyd arwyddocâd y testun, a buan y sylweddolwyd fod hâd llenyddol ardal ein gŵr gwadd wedi cyrraedd a disgyn ar dir eang a ffrwythlon.

Diolchwyd iddo'n rhugl a rhwydd gan gyfaill a chyd ddisgybl yn ysgol Llandysul sef y Parch Goronwy Evans. Roedd yn amlwg mae hir y cyfeillgarwch a melys yr atgofion. Heb os, dyma noson arall o gwmni gwresog a chyfle i gofio a gwerthfawrogi gyda'n gilydd. Edrychwn ymlaen yn awr i ddatlu Gŵyl ein Nawddsant gyda'n gilydd ar Fawrth 8, yng nghwmni'r cantorion enwog Côr Cardi Gân. Mae yna groeso i unrhyw un sydd â chysylltiad â'r Cylch Cinio, yn bresennol neu yn y gorffennol, i ymuno gyda ni. Dewch yn llu am noson o adloniant pur.

Dyma'r goreuon o limrigau nos Iau, y 1af o Chwefror, yn ôl y beirniad Dai Rees Davies:-

1. Wrth fynd o'r Llew Du un nos Wener,
Fe gofiwn oes aur yr ysblander;
Bu'n gyfnod llewyrchus
Dan law Glyn a Dilys,
Ein gobaith, caiff eto ei adfer.

2. Wrth fynd o'r Llew Du un nos Wener,
Roedd angen y tŷ bach ar fyrder;
Fe gymres i risg
A gyrru'n o frisg,
Bu bron imi gyrraedd mewn amser.

3. 'Roedd Jac Penrhiwpâl mewn cryn bryder,
'Roedd y stêm yn mynd allan o'i bartner;
Ond mi ffeindiodd y trwbwl
Pan welodd e'r cwbl
Wrth fynd o'r Llew Du un nos Wener.

4. Wrth fynd o'r Llew Du un nos Wener,
R'ôl dathlu penblwydd John ei gefnder,
Mi lyncwyd tri wisgi,
Dau gin a drambiwi,
Aeth adre, ond ni chafodd swper!!

Enillwyr: 1. Twynog Davies, 2. Richard Marks, 3. Tim Jones, 4. Twynog Davies. Diolch i Eifion Williams am ei rodd i'r enillydd ac i'r holl gystadleuwyr am fynd i hwyl y noson.

Shiloh a Soar

Braf oedd cael croesawu Ryan Jones i'r Gymdeithas ar brynhawn Iau, Chwefror 8, i sôn yn bennaf am ei daith ryfeddol wrth gerdded Mur Mawr Tseina, a hynny dros yr elusen Tŷ Hafan. Ar ôl cael ei groesawu gan y Llywydd, Philip Lodwig, mi gyfeiriodd Ryan ar y cychwyn fod y gost o gynnal yr Hosbis tua 4 miliwn y flwyddyn neu £12,000 y dydd, a 3% yn unig mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gost.

Drwy gyfrwng sleidiau a fideo, cafwyd darlun byw a lliwgar o'r hyn yr oedd yn ei olygu i gerdded tua 6 milltir o'r mur, a oedd yn hynod serth mewn mannau. 'Roedd y tymheredd yn llethol ar brydiau ond mi ymdrechodd y 29 o Gymry a fentrodd ar y daith, i gyrraedd y nôd gan wybod fod yr achos mor deilwng. 'Roedd Eglwys Shiloh wedi cyfrannu £100 tuag at y fenter uchelgeisiol yma ac mi ddangosodd Ryan ei werthfawrogiad o'r holl nawdd a dderbyniodd, drwy gyhoeddi ei fod wedi codi £7800, ond bu rhaid iddo godi £800 o arian ei hun. Hyfryd oedd clywed hefyd fod y siop leol yn Llanbedr gyda'r mwyafrif llewyrchus yng Nghymru, ac yn codi, ar gyfartaledd, tua £76,000 y flwyddyn. Wrth weld lluniau o'r plant bach yn yr Hosbis a chlywed am y gofal arbennig oeddynt yn derbyn oddiwrth staff hynod ymroddgar, 'roedd yna deimlad unfrydol mai dyma elusen sydd yn haeddu ein cefnogaeth. Diolchodd y Llywydd i Ryan am y weledigaeth a'r ymdrech, cyn cael cyfle i gymdeithasu dros baned o de.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Alun Williams, Deganwy, Pencader (Crown Stores Llanbedr) ddiolch i bawb am y galwadau ffôn, cardiau a rhoddion a dderbyniodd yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Ysgol Sul Noddfa

Bydd yr Oedfa arbennig a drefnir gan Ysgol Sul Noddfa ar Sul y Mamau, sef 11 Mawrth, yn cychwyn am 5.30 ac nid am 5 o'r gloch fel y nodwyd yn rhifyn mis Chwefror. Cymerir rhan mewn pennill a chân gan y plant, y bobol ifanc a rhai o'r rhieni. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Adran yr Urdd Llanbed

Cafwyd llawer o hwyl yn cwblhau cwis diddorol yng nghwmni Mr Eryl Jones a diolch iddo am ddod atom. Diolch hefyd i Mrs Haf Meredith sydd wedi bod wrthi yn paratoi baner i'r adran a'r aelwyd gyda'r plant ar gyfer yr orymdaith Gŵyl Ddewi a gynhelir yn Llanbedr. Bu Mrs Amanda Jones ac Anthea Jones yn cynnal bingo gyda'r plant ac yna yr wythnos ganlynol daeth Mr Dyfrig Davies i wneud sgiliau rygbi gyda'r aelodau. Cafwyd llawer o sbri yn ystod y sesiynau hyn i gyd a diolch i'r gwirfoddolwyr am roi o'u hamser i ddod atom, ac i Carys Jones am ei chymorth parod. Mae'r aelodau yn brysur yn paratoi ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd ar hyn o bryd, a diolch i Rhiannon Lewis, Elin Williams a Lois Williams am hyfforddi a chyfeilio – rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr fel aelodau ac arweinyddion.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Cerdin Price, Langwm, Heol-y-Bryn, ben-blwydd arbennig yn ystod mis Chwefror. Gobeithio i ti fwynhau'r dathlu.

90 oed

Dathlodd dau o drigolion Heol Pontfaen eu pen-blwyddi yn 90 oed o fewn dyddiau i'w gilydd sef Gwilym Davies, Gernant ac Aneurin Jones, Meini Llwyd. Iechyd da i chwi eich dau eto i'r dyfodol.

Noson i'r dysgwyr gan Ferched y Wawr Llanbed

Cafwyd noson ddifyr iawn yn Festri Shiloh nos Lun, 12fed Chwefror, pan ddaeth nifer dda o ddysgwyr i gymryd rhan mewn noson chwist gyda'r merched. Roedd yn braf croesawu sawl dyn yno hefyd! Croesawyd y dysgwyr a phawb i'r noson gan ein is-Lywydd, Elin Williams, a threfnwyd y

Llanbedr Pont Steffan



Llun o'r rhai aeth i'r Morlan a'r Llyfrgell Genedlaethol fel rhan o weithgareddau Rhaglen Cymdeithas Shiloh a Soar dros y gaeaf.

chwarae a'r gweithgareddau gan Morfudd Slaymaker. Roedd ei chwiban a'i threfniadau yn hynod effeithiol, a'r chwarae yn llawn sgwsio a sbri. Wedi'r chwarae cafwyd danteithion blasus a baratowyd gan y pwyllgor, a chyfle i'r dysgwyr ymarfer eu Cymraeg.

Enillwyd gwobr y dysgwyr gan Dominic Bromley a Merched y Wawr gan Dilwen Roderick.

Diolchwyd i bawb, ac i'r dysgwyr am ddod, gan ein Llywydd Morwen Thomas. Hefyd diolchwyd i'r pwyllgor am baratoi'r lluniaeth blasus.

Mae'r noson yn ddigwyddiad blynyddol bellach, a'r dysgwyr yn ddiolchgar iawn am y cyfle i ymarfer eu Cymraeg a chael hwyl ar yr un pryd.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau cynnes i Rhian a Chris (Llwynieir gynt) ar enedigaeth eu merch fach, Gracie Ffion, yn Halesowen, Gorllewin Canolbarth Lloegr. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Noddfa

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Noddfa ar Sul 18 Chwefror i oedfa foreol yng ngofal y Parchedig Eirian Wyn Lewis. Fe'i croesawyd yn gynnes gan Janet. Diolchodd yntau am y gwahoddiad a soniodd mai pleser bob amser yw dod nôl i ardal Llambled. Cyflwynodd ei neges mewn ffordd mor syml a chartrefol, ond roedd ganddo neges bwysig a gafaelgar i bawb ohonom. Ar y cychwyn, diddorol oedd gwrando arno yn egluro ystyr nifer o eiriau yn gysylltiedig â thafodiaith Sir Benfro - y mwyafrif ohonynt yn newydd i ni. Hefyd cafodd yr anrhydedd o ddefnyddio system sain newydd Noddfa am y tro cyntaf. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena.

Cynhelir Swper y Pasg yn Noddfa nos Lun 19 Mawrth - amser i'w drefnu. Enwau os gwelwch yn dda i Myfanwy.

Mae'n dda gweld John Morgan nôl yn ein plith yn dilyn llawdriniaeth rhai misoedd yn ôl. Hefyd mae pawb yn falch clywed bod Alun Williams yn gwella yn dilyn ei lawdriniaeth yntau yn ddiweddar.

Aelwyd yr Urdd

I ddechrau'r tymor newydd cynhaliwyd cyfarfod yng ngofal Lleucu Aeron, sydd yn gweithio yn Adran Chwaraeon yr Urdd. Cafwyd noson hwyliog ac egniol yn cymryd rhan mewn gêm amrywiol yn cynnwys goleuadau traffig, yr anghenfil a'r llygodyn a llawer mwy. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchodd Gruffydd i Lleucu am noson yn llawn sbri. Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi cynnal noson ffilm.

Ar 8 Mawrth bydd nifer o unigolion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Pob lwc i bawb. Bydd yr Aelwyd yn cwrdd nesa nos Fawrth 23 Mawrth i fwynhau noson o gystadlaethau ysgafn. Dymuniadau gorau i'r grwpiau llefaru a deusain ynghyd â'r unigolion fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Rhanbarthol yr Urdd yn Bont ar 23 Mawrth.

Daw'r tymor i ben nos Fawrth 27 Mawrth gyda noson amrywiol yng ngofal Meriel, swyddog cynorthwyol yr Urdd Ceredigion. Diolch yn fawr i'r aelodau am eu ffyddlondeb ac i'r rhieni am bob cefnogaeth.

Diolch

Dymuna Helen Jones a'r teulu, Llwynieir, ddiolch yn gynnes iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt yn ystod y cyfnod anodd o golli Dennis. Hefyd gwerthfawrogi yn fawr y cyfraniadau tuag at gangen Llanybydder a Llambled o Sefydliad Prydeinig y Galon a Diabetes U.K. Diolch o galon i chi gyd.

Brondeifi

Mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn gyfle i arbrofi tipyn a thrio ambell fenter newydd. Un enghraifft dda yw'r clwb darllen

misol sydd wedi ei sefydlu dan fantell Brondeifi. Mae wedi bod yn llwyddiannus hefyd o ran denu aelodau o'r tu hwnt i'r capel i drin a thrafod llyfrau Cymraeg, a hynny mewn awyrgylch gartrefol. Cyfle arbennig i gymdeithasu, felly, ar brynhawn Mercher unwaith y mis. Y chwiorydd, Gwenda ac Elsie, sy'n trefnu. Cynhaliwyd y cyfarfod diwetha' ar y 14eg o Chwefror, gyda'r aelodau'n trafod 'Cysgod Y Cryman'. Cafwyd cyfarfod hwyliog a llwyddiannus arall a chyfle i fwynhau cacen siocled arbennig a wnaed gan Eryl i ddathlu penblwydd cyn-brifathro Ysgol Uwchradd Llambled, ac aelod hynaf Darllen Difyr Llambled - Mr Aneurin Jones - yn 90 oed.

Mae Heini Thomas wedi cyfrannu'n helaeth at yr Ysgol Sul dros y blynyddoedd, ac yn ddiweddar mae wedi dewis rhoi'r gorau i wasanaethu fel athrawes oherwydd ei galwadau gwaith. Diolch o galon iddi am ei chyfraniad gwerthfawr ar hyd y blynyddoedd. Mae dyfodol unrhyw gapel neu eglwys yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar yr ieuenctid, wrth gwrs, - dyna pam mae Brondeifi wedi sefydlu cynllun newydd i geisio darparu ar gyfer pobl ifanc y capel. Bellach, mae cyfle iddynt gwrdd ar ddydd Mercher wedi'r ysgol, gan gymdeithasu ac ymgymryd â gwahanol weithgareddau sy'n cael eu cynnal ar ffurf modiwlau. Roedd y modiwl cyntaf yn cynnwys cyfle i ffurfio band newydd, gan berfformio yn Noson Bwyd Thai Brondeifi. Buont hefyd yn gwneud ffilm fer ar ddathliadau penblwydd y Festri yn 21 oed, a chafwyd ymweliad llwyddiannus iawn â'r Llethr Sgîo yn Llangrannog. Digon o amrywiaeth, felly, i gynnal diddordeb ac ennyn brwdfrydedd i'r dyfodol.

Mae gwasanaethau mis Chwefror hefyd wedi bod yn gyfnod i arbrofi a chael cyfraniadau amrywiol a diddorol. Cafwyd oedfa dda yng nghwmni aelodau Urdd y Benywod ar y 4ydd. Yna, camodd Mrs



Aneurin Jones, Meini Llwyd, Llambled yn torri cacen dathlu ei benblwydd yn nawdeg oed gyda'i deulu a'i ffrindiau yn Yr Hedyn Mwstard ar yr ail-ar-bymtheg o Chwefror.

Melda Grantham, Ysgrifennydd yr enwad, i'r pulpod ar y Sul canlynol. Ar y 18fed, cafwyd gwasanaeth cofiadwy gan rai o aelodau'r capel sy' dros 30 oed. Trefnwyd y gwasanaeth yn ddeheuig gan Meinir Evans, Wernllwyn, Stryd yr Orsaf - a diolch iddi am ei gwaith. Y thema oedd 'Ysbrydoliaeth' a chafwyd cyfraniadau graenus gan bob un o'r rhai a gymerodd ran. Gobeithio fod hyn yn gysail ar gyfer gwasanaethau tebyg i'r dyfodol. Bydd oedfa arbennig gydag ieuenctid y capel yn cael ei chynnal yn nes ymlaen mis Mawrth hefyd (ar y 25ain o'r mis) a'r Gweinidog yn eu cynorthwyo nhw.

Ar y 4ydd o Fawrth bydd yr oedfa Wyl Ddewi flynyddol, yng ngofal Teulu Ffosyffin, yn cael ei chynnal yn y Festri. Fel arfer, mae hwn yn achlysur poblogaidd a chofiadwy, ac mae'n argoeli i fod felly eleni hefyd. Cofiwch fod yno erbyn 11 y bore i sicrhau'ch lle.

Urdd y Benywod Brondeifi

Ar yr 11eg Ionawr cawsom y pleser o groesawu Angharad Williams o Siop Lan Llofft yn Llambled i sôn wrthym am ei gwaith ym myd Ateglion.

Mae'n amlwg fod Angharad yn ferch ddawnus a deallus ac yn un sydd yn cyfathrebu'n hwylus. Cafodd ei haddysg gynnar yn ysgolion Llambled, ac yna aeth i Brifysgol Reading i wneud astudiaethau busnes. Cyn iddi fynd i'r Brifysgol aeth i Gelli Aur i astudio am NVQ lefel 2 mewn Amaethyddiaeth. Ar ôl iddi raddio yn Reading, daeth cyfle iddi ym myd marchnata i ddysgu sut y defnyddir ffigurau gwerthiant y flwyddyn gynt i hyrwyddo prynu a gwerthu.

Cafodd gyfweiliad gan gwmni ffasiwn River Island yn Llundain, ac mae'n sicr fod y profiad o weithio yn siop ei modryb Janice

Llanbedr Pont Steffan

yn Llambod, bob Sadwrn ers iddi fod yn ddeuddeg oed, wedi bod o gymorth mawr iddi sicrhau'r swydd. Cawsom ddarlun hefyd ganddi o fywyd yn y byd ffasiwn yn Llundain – Hollol Crazy” oedd y geiriau a ddefnyddiodd i ddisgrifio'r profiad! Fodd bynnag, gydag amser, daeth cyfle iddi ddod yn ôl i weithio yn Llambod yn siop ei modryb Janice, ac agor ei siop ei hunan “Lan Llofft,” ac erbyn hyn mae wedi bod yno ers dros wyth mlynedd. Mae'n medru cyfuno hyn â helpu adre ar y fferm yn enwedig amser wyna. Mae ganddi hefyd yr egni a'r brwdfrydedd i fynd i siarad ar y radio, neu i ymddangos ar y teledu ar raglen Prynhawn Da, yn ogystal â theithio hwnt ac yma i agor siopau “Pop Up,” lle'r aiff â'i gwisgoedd gyda hi i'w harddangos am ychydig orau yn unig. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant gan ei bod yn cynnig gwasanaeth personol na cheir mo'i debyg mewn siopau mawr. Mae wedi teithio tipyn i Ogledd Cymru hefyd, ac mae wedi agor siop ym Machynlleth.

Mae'n mynd i Lundain bob chwe mis i brynu stoc ond er bod casgliad o ddillad i'w cael mewn blwyddyn mae'n ymwybodol fod byd ffasiwn Gorllewin Cymru yn bur wahanol i'r un cosmopolitanaidd! Diddorol oedd gwrandio arni'n trafod termau o'r byd ffasiwn, a'r rhan fwyaf ohonynt yn deillio o'r gair TRENDS neu dueddiadau. Soniodd am “Transitional Trends” a “Nostalgic Trends” ynghyd â dangos i ni enghreifftiau o ddillad lle defnyddir “Colour Blocking” a “Grafic Prints” oedd yn ddeniadol dros ben. Roedd yn ddiddorol deall nad aiff Jeans byth mas o ffasiwn er bod y dechnoleg sy'n llunio'r defnydd wedi newid cryn dipyn. Mae'r “Skinny Jeans” yn amlwg wedi ennill eu plwyf ac mae “Stretchy Jeans” hefyd yn ffefrynnau erbyn hyn.

Gan iddi ddod â gwisgoedd gyda hi i ddangos i ni, cawsom weld drosom ein hunain fod gosod streipiau o liwiau anarferol fel pinc ac oren a coch gyda'i gilydd mewn siwmpwr yn hynod effeithiol. Mae'n bwysig yn ôl Angharad i addasu'r tueddiadau ffasiynol er mwyn cael steil sy'n siwto.

Yr eisin ar y gacen y noson hon oedd i ni cael cyfle ar y diwedd i brynu rhai o'r ategolion deniadol a ddaeth Angharad gyda hi, a hynny am bris rhesymol.

Bu hon yn noson i'w chofio yng nghwmni merch sy'n llawn brwdfrydedd a syniadau gwreiddiol ac sydd eto â'i thraed yn sownd ar ddaear Ceredigion.

Diolchwyd yn gynnes iddi ar ein rhan gan Elma ac enillwyd y raffl gan Morfudd. Paratowyd y te gan Jennie, Aerwen ac Eleanor.

Cymdeithas Hanes

Thema cyfarfod mis Chwefror oedd “Plwyf Pencarreg: ymchwil pellach 2016-18”. Eric Williams a Jen Cairns, dau aelod o'r Gymdeithas a gyflwynodd yr hanes, gan ddangos cyfres o hen luniau yn ymwneud â'r Plwyf sy'n cwmparu hen bentrefi Cwmann, Dolgwm ac Esgerdawe. Gwelwyd olion bryngaer o Oes yr Efydd, ffordd y Rhufeiniaid, Pont Hamilton ar draws y Teifi, ger Dolgwm, adeiladau sydd wedi mynd erbyn hyn, ac wrth gwrs hen gymeriadau a fu'n byw yn yr ardal. Ymchwiliwyd yn y Llyfrgell Genedlaethol am wybodaeth, holwyd ymhell ac agos, a nifer o drigolion plwyf Pencarreg wedi cyfrannu eu hatgofion at y casgliad oedd ganddynt eu hunain. Caed hanes y Tollbyrth, y bedair dafarn (Plasnewydd wedi ei ddymchwel ers meityn); a phwysigrwyd cof-golofn y plwyf.

Daeth cynulliad da i glywed yr hanes lleol yma, a diolchwyd yn gynnes i Eric a Jen gan Selwyn Walters, y Cadeirydd.

Yr Amgueddfa

Bydd Amgueddfa Llambod yn ail-agor Dydd Mawrth, Mawrth 27ain a chasgliadau newydd yn cael eu harddangos. Ceisir cynnal diddordeb pobl yr ardal, ynghyd ag ymwelwyr, i droi i mewn i'r Amgueddfa i weld y casgliadau gwahanol o dymor i dymor, ond mae'n syndod faint o rai lleol sy'n dweud nad ydynt wedi bod yna eto! Dewch wir, - mae yna ryw beth o ddiddordeb i bawb, a chewch groeso cynnes gan y gwirfoddolwyr ar ddyletsywyd.

Diolch

Dymunaf ddiolch o galon am y cyfoeth cyfarchion a'r caredigrwydd anhygoel a dderbyniais ar adeg fy mhen-blwydd yn 90 oed ar Chwefror 17 eleni.

Braint enfawr yw cael byw mewn cymdeithas fel hon a medru gwerthfawrogi ei chroeso, ei chynhesrwydd a'i Chymreictod. Hir barhâd i'w natur unigryw a diolch am wneud penwythnos hen ŵr yn hynod hapus.

Aneurin Jones

Grŵp Trafod Amaethyddol

Croesawyd Cwmni Gwili Jones atom i gyfarfod 23 Ionawr. Cawsant eu llongyfarch ar ennill Gwobr Busnes Gorllewin Cymru 2018 – y Categori Amaeth yr wythnos hon. Cafwyd cyflwyniad a hanes y cwmni gan Nigel Davies – cwmni adnabyddus iawn yn yr ardal yn cyflenwi tractors New Holland a nifer o beiriannau amaethyddol eraill. I ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r cwmni gan Gwili Jones trefnwyd ‘Taith Tractorau’ a chodwyd swm sylweddol iawn i

elusen RABI. Roedd Mrs Eileen Jones yn bresennol yn y cyfarfod ynghyd â Shân a nifer o staff y cwmni. Rhys Thomas o Gwmni Bomford Turner roddodd yr ail gyflwyniad, drwy roi hanes sefydlu'r cwmni hyd at heddi. Maent yn cynhyrchu'n bennaf peiriannau torri cloddiau a phorfa. Paratowyd lluniaeth ar gyfer yr aelodau a raffl drwy garedigrwydd Gwili Jones. Talwyd y diolchiadau gan Dai Davies, Tynloff, gan nodi fod y gymdeithas gyfan yn elwa o garedigrwydd a gwasanaeth cwmni Gwili Jones. Cyhoeddodd Anwen Hughes fod UAC yn trefnu Brecwast yn ystod yr wythnos, yn Nhregaron ac Aberaeron a chyfarfod Merched mewn Amaeth.

Y gŵr gwadd ar 6 Chwefror oedd Bleddyn Davies o Dalgarreg oedd yn cynrychioli Pwyllgor Rhyngwladol CFFI Ceredigion. Mae'n gweithio i Gyswllt Ffermio. Ymwelodd ag Illinois yn Awst 2016 am 22 diwrnod a chafwyd cyflwyniad o'r daith ddiddorol honno ganddo, o ddiwrnod i ddiwrnod, drwy sleidiau. Roedd popeth ar raddfa enfawr yno a chafodd brofiadau bythgofiadwy. Nodwyd ei fod yn Llysgenad Ifanc yr NSA am 2018 a dymunwyd yn dda iddo yn y swydd honno. Diolchodd Jonathan Jones, Dderigoch iddo am roi o'i amser i ddod atom ac am noson hwylus iawn.

I ddilyn cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol – hanes yn y rhifyn nesaf.

Tripiau: 3 Mai – Ffatri CAT yn ‘Leicester’; 10 Mai – Bwydydd Lloyds, Croesoswallt; 27 Medi – 2 Hydref – Orkney a Shetland, Yr Alban. Unrhyw aelod sydd â diddordeb i roi gwybod i Aneurin Davies cyn gynted â phosib.

Darlith Goffa Cliff Tucker 2018

Gwahoddir chi'n gynnes i Darlith Goffa Cliff Tucker 2018 yn Narlithfa Tucker ar Gampws Llambod, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, nos Wener 16 Mawrth am 7.00 o'r gloch. Y darlithydd gwadd yw Peter Florence, cyfarwyddwr a chyd-sylfaenydd Gŵyl y Gelli, a bydd yn traddodi (yn Saesneg) ar y testun: ‘It's all true’. Bydd lluniaeth a chroeso cynnes i bawb. Mynediad am ddim. RSVP: Dr Rhiannon Ifans, Cyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant: rhiannon.ifans@uwtsd.ac.uk

Diwedd Cyfnod

Ymdeoliad hapus i Eifion Williams ac Alun Williams, Crown Stores. Golygfa ryfedd yw gweld eu siopau i gyd ar gau ar y Stryd Fawr erbyn hyn wedi 60 blynedd o fasnachu. Dymuniadau gorau i'r ddau a'u teuluoedd.

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
ac yn golchi *duvets*.
Sychlanhau ar y safle.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



2 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan
T: 01570 423884 S: 07900 370537
e.dawnsemporium@gmail.com f.dawnswelshgifts

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Cyngor Llanybydder

Bu tipyn o siarad am wythnosau bellach ar ôl y Ffair Nadolig yn y pentref. Roedd yn ddiwrnod arbennig. Diolch i bawb a fu'n gweithio'n galed wrth baratoi.

Mae Mrs Hazel Priddey o Rhydcymerau wedi bod yn llwyddiannus wrth cael ei phenodi i fod ar Gyngor Cymuned Llanybydder - ward Rhydcymerau. Croeso iddi hi.

Mae Mr Kelvin James o Lanybydder hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth gael ei benodi i fod ar y Gyngor Cymuned Llanybydder - ward Llanybydder. Croeso iddo yntau.

Prynwyd coeden y Ddraig i Mike a Pam Burke ar eu hymddeoliad ddiwedd Rhagfyr 2017. Pob lwc a bendith iddynt, gyda iechyd a hir oes.

Mae pethau'n symud ymlaen yn araf bach gyda pharc chwarae, Rhydcymerau. Diolch i Sylvia Maskelyne am ei gwaith paratoi.

Rhodddwyd £500.00 i Gylch Meithrin Llanybydder yn gymorth ariannol.

Cyngor Llanllwni

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 8 Ionawr 2018 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i Peter Howells, Ty-cam, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty dros gyfnod y Nadolig.

Croesawyd Eleri Morgan i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol.

Roedd rhai pwyntiau i roi sylw iddyn nhw: Ceir yn rasio ar y mynydd. Ceir yn parcio tu allan i'r Ysgol yn gynnar yn y prynhawn tua 2.50yp a cheir yn parcio ar y ffordd fawr o flaen Celtic Classics. Yr oedd Eleri Morgan yn annog unrhyw un oedd yn gweld unrhyw ddigwyddiad neu â thystiolaeth am ddigwyddiadau i gysylltu ar 101.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd hysbyseb yn gosod amodau ar gyfer cwblhau gwaith ar y Cae Chwarae wedi ymddangos a saith cais wedi dod i law.

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Tachwedd ar y wefan, ac wedi ymddangos yn 'Clonc' ac yn 'Clecs Bro Cader'.

Ninant, Pontdulais, Tro Beeches - Cafodd y Clerc gadarnhad gan Gyngor Sir Caerfyrddin na fyddai'n bosibl gosod llinellau dwbwl oherwydd bod y manau yma yn rhy gul.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cyngor Llanwenog

Cadeirydd: Cyng Geraint Davies Clerc: Gwennan Jenkins

Cyfeiriad Gwefan:- www.cyngorllanwenogcouncil.org.uk

Cynhaliwyd noson hynod o ddiddorol dan ofal Simon Evans, Troedriw, Cwrtnewydd yn Ysgol Dyffryn Cledlyn ar y 26ain o Ionawr. Bu'n adrodd hanes y plwyf o'r Oes Haearn ac Efydd hyd heddiw. Diolch iddo am ei holl waith ymchwil ac am roi hanesion difyr ar gof a chadw. Codwyd £150.00 tuag at Gylch Meithrin Cledlyn.

Mynychodd y Cyng Hazel Thomas a'r Cyng Alwena Williams gyfarfod Un Llais Cymru yn Aberaeron yn ddiweddar, ac yn dilyn y cyfarfod maent wedi enwebu enw Cyngor Cymuned Llanwenog ar gyfer Gwobr Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru, i'r categori 'Menter Ymgysylltiad Cymunedol Orau', am waith y Cyngor Cymuned yn prynu a rhoi defnydd i'r Ciosgs Coch; cynnal Hyfforddiant Diffibriliwr ar y cyd â Sioe Cwmsychpant; cefnogi mudiadau lleol yn ariannol; cymryd les Cae Chwarae Cae Sarn o'r Cyngor Sir; taith gerdded flynyddol; cymryd gofalaeth o'r gofgolofn; grant i'w glanhau a'r gwaith o'i symud er mwyn creu mynedfa i Ysgol Dyffryn Cledlyn; trefnu gwasanaeth Sul y Cofio a chynnal noson Hanes Plwyf Llanwenog. Gobeithio y byddwn yn llwyddiannus!

Arolwg Trefniadau Etholiadol Sir Ceredigion - Er bod y rhan fwyaf o wardiau etholiadol Sir Ceredigion wedi eu cynnwys yn yr arolwg, nid oes newid yn yr arfaeth ar gyfer Ward Llanwenog a Llanwnnen.

Mae nifer o'r Cyngorwyr Cymuned wedi codi pryderon am ddraeniau wedi llenwi, a heolydd o ganlyniad yn llifo â dŵr; tyllau yn yr heolydd a gordyfiant coed a chloddiau. Mae'r Clerc wedi hysbysu'r Cyngor Sir ac maent yn bwriadu gwneud y gwaith.

Mynychodd Cyng Hazel Thomas, Cyng Alwena Williams, Cyng Emyr Rees, Cyng Sion Jenkins a'r Cyng Bill Green gyfarfod Uwch Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion. Yr adborth a gafwyd oedd bod y Cyngor Sir yn gorfod gwneud miliynau o bunnoedd o arbedion yn y tair blynedd nesaf. Ond cafwyd adborth hefyd ei bod hi'n edrych yn debyg bod arian yn cael

ei wastraffu gan y Cyngor Sir ac felly roedd e'n gyfarfod rhwystredig, ond canmolwyd y Swyddogion am fod yn agored.

Daeth i sylw'r Cyng Eluned Jones bod cysgodfan bws Cwrtnewydd yn gollwng. Gan ei bod yn cael ei defnyddio yn ddyddiol bellach gan blant Ysgol Dyffryn Cledlyn, mae angen sylw ar y gysgodfan. Cytunodd y Cyngorydd Sir, Euros Davies, i edrych arno a gwneud y gwaith atgyweirio, - diolchwyd iddo.

Mae pwyllgor Pobl Cwrtnewydd People wedi holi i'r Cyngor Sir yn uniongyrchol am yr hawl i osod twbau blodau ar reilins pont Cwrtnewydd, ond cawsant ymateb negyddol yn dweud y byddai'r twbau yn niweidio'r paent newydd. Felly mae'r Cyngor Cymuned wedi anfon eboest at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ailystyried y mater.

Nid yw pob un o'r goleuadau newydd o amgylch cylchfan Drefach yn gweithio. Mae'r Cyngor Cymuned wedi holi a yw hyn ar bwrpas neu a ddylent fod ymlaen yn ystod y nos.

Digwyddiadau ar y gorwel: 29ain o Ebrill – Y Daith Gerdded Flynyddol i ddechrau o sgwar gwaelod Cwrtnewydd am 10yb a nôl i Festri Capel Seion am luniaeth. Elw tuag at A&E Glangwili. Y daith i ddilyn llwybr y Pingos, Glanyrafon a hanes yr ardal yma o'r Plwyf. 1af o Fai – Neuadd yr Hafod, Gorsgoch, sesiwn holi ac ateb gyda Chomsiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn, am 7.30yh. Croeso i bawb.

Sylwadur'r SiNema gan Gary Slaymaker



Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn ystod y mis:

16 Mawrth FINAL PORTRAIT

Ma ffilmie am artistiaid yn galler bod yn bethe digon anodd, nid yn unig i'w gwneud, ond i'w gwylio. R'odd gwylio Sir Anthony Hopkins yn gweiddi ei ffordd drwy Surviving Picasso yn ddigon o straen, ond wrth lwc, ma Final Portrait yn perthyn i'r dyrnaid prin na o ffilmie da am artistiaid. Alberto Giacometti yw'r artist dan sylw, ac mae'n mynd â ni nôl i ddechrau'r 60au, yn Ffrainc, wrth i Alberto gymryd mlaen y jobyn (digon syml, i weld) o darlunio'r awdur James Lord.

Yn anffodus mae'r dyddie'n estyn wrth i Giacometti strygly gyda'i dalent a'i allu i greu darlun syml; a fan hyn 'y'n ni'n gweld natur yr arlunydd, a'i frwydr gyda'i dalent. Ffilm dawel, urddasol, ond sy'n difaru o chwaeth a talent. Ma' Geoffrey Rush yn ardderchog fel yr arlunydd rhwystredig, ac Armie Hammer yn cynnig gwaith da fel gwrthrych y darlun. Wedi ei chyfarwyddo gan yr actor, Stanley Tucci, ma hon yn ffilm gan ddyn sy'n deall shwt ma' cael y gorau o'i actorion, ond sydd hefyd yn gwbod shwt ma' defnyddio tawelwch, lliw, ac emosiwn, cystal ag unrhyw artist sydd wedi rhoi brwsh ar bapur. Perlen fach o ffilm, odd yn haeddu fwy o sylw na chafodd hi, haf llynedd.

6 Ebrill DUNKIRK

Ffilm rhyfeddol Christopher Nolan i gofnodi'r adeg 'na yn ystod yr Ail Ryfel Byd, pan fuodd rhaid achub bron i 400,000 o filwyr Prydain o draethau Ffrainc. Sgôp a maint y ffilm...a gweledigaeth Nolan, sy'n taro chi gynta, wrth i'r stori agor lan, a'r cymeriadau gwahanol yn ymddangos wrth i'r hanes fynd yn ei flaen. Mae'n ffilm sy'n adlewyrchu tri cangen y lluoedd milwrol, gyda darnau o storïau sy'n perthyn i'r môr, yr awyr, a'r ddaear. Mae'r perfformiade'n gynnil, ac mae'r ffilm yn edrych yn odidog. Mae'n un o'r pictiwr 'na sy'n haeddu cael ei gweld ar sgrîn fawr, ac mae'r golygfeydd o'r "dogfights" rhwng yr RAF a'r Luftwaffe gyda'r gorau sydd erioed wedi cael eu rhoi ar sgrîn. Yr unig wendid, i fi, yw bod hi gyd yn teimlo braidd yn oeraidd ac antiseptig; ond ma hwnna'n fwy i wneud gyda natur gwaith Christopher Nolan, nag unrhyw broblem gyda'r sgript. Ma' 'na elfen Brexitiaidd yn perthyn i'r diwedd glo hefyd, sy'n gadael bach o flas câs yn y geg; ond ar y cyfan, mae'n ffilm sy'n haeddu cael ei gweld...er gwaetha'r ffaith bod Nigel Farage yn meddwl bod hi'n un o'r ffilmie gorau mae e erioed wedi'i weld. Weda'i ddim mwy.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

Dangosir ffilm yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch ar nos Iau diwethaf y mis am 7.30yh. Mynediad am ddim.

Campws Iau

Bu Michael McDonagh, disgybl ym mlwyddyn 6, yn coginio dau bryd yng nghystadleuaeth Sirol Cogurdd gan wneud yn arbennig o dda. Da iawn ti Michael a dal ati i goginio bwyd blasus.



Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth Sirol pêl-rwyd yr Urdd yn Llangrannog yn ddiweddar. Gwnaethant chwarae'n arbennig o dda gan ennill dwy gêm, dod yn gyfartal mewn dwy a cholli un. Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd fe orffenodd y tîm yn y trydydd safle. Llongyfarchiadau mawr i Rhun Davies, Regan Jones, Sara Jones, Ceris Jones, Lizzie Lomas, Robyn Moss, Elizabeth Foot a Lucy Warner a diolch yn fawr i Miss Nia Davies am hyfforddi.

Daeth Karen o'r Frigad Dân i siarad â disgyblion yr Uned dan 5, fel rhan o'u thema "Pobl sy'n ein helpu", a bu'n sôn wrth y plant am ei gwaith – diolch iddi am roi o'i hamser.

Bu holl blant yr ysgol yn dathlu ar ddydd Santes Dwynwen drwy gwblhau amrywiaeth o weithgareddau ac yna mwynhau drwy'r prynhawn yn dawnsio i fiwsig Cymraeg. Daeth pawb i'r ysgol mewn dillad o'u dewis a chasglwyd bron £300 tuag at daith disgybl o'r ysgol, sef Tomos Jones, sy'n chwarae criced i Gymru ac yn mynd ar daith Academi Clwb Criced Morgannwg i Dde Affrica. Diolch i Morgan, Rhodri a'r bois am y disgo.

Bu dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn brysur yn coginio crempogau ar ddydd Mawrth Ynyd a bu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn gwrandao a thrafod cerddoriaeth Cymraeg ar Ddydd Miwsig Cymru.



Daeth cwmni Mewn Cymeriad i'r ysgol i berfformio'r sioe "Buddug". Llwyddodd yr actores i ddod â hanes y Celtiaid yn fyw a chafodd y disgyblion gyfle i ymuno yn yr hwyl. Diolch am gyflwyniad clodwiw unwaith eto.

Am y tro cyntaf erioed bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu'n unigol yn Eisteddfod y Campws Hŷn, ac roeddent yn llwyddiannus tu hwnt. Gwnaeth tri deg o ddisgyblion gystadlu ym mhob rhagbrawf, a llongyfarchiadau i'r canlynol a berfformiodd ar lwyfan yr eisteddfod hŷn:- Unawd bl 5 a 6 – 1af Cerys Angharad Jones, 2il Lexie Wells, 3ydd Lucy Warner. Llefaru iaith gyntaf bl 5 a 6 – 1af Rhun Davies, 2il Cerys



Cerys Angharad Jones



Rhun Davies



Mabli Cutler

Angharad Jones, 3ydd Michael Mc Donagh. Llefaru ail-iaith bl 5 a 6 – 1af Mabli Cutler, 2il Nikola Jablonska, 3ydd Charlie Condon a Kuba Michalski – arbennig. Yn ogystal, bu holl ddisgyblion bl 5 a 6 yn gwyllo cystadlaethau meim a sgets yn yr eisteddfod ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr. Mae holl ddisgyblion y campws cynradd wrthi'n brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer ein heisteddfod Gŵyl Ddewi – yn canu, llefaru, gwneud gwaith celf ac ysgrifennu storïau, a'r cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Edrychwn ymlaen at gael croesawu rhieni a ffrindiau atom wrth i ni ddathlu gŵyl ein nawddsant.

Campws Hŷn

Llongyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o Eisteddfod y campws hŷn eleni. Gwelwyd cystadlu brwd rhwng y tri thy gyda Teifi'n cipio'r brif wobr ac yn ennill yr Eisteddfod. Y beirniaid eleni oedd Sion Eilir Pryce (Cerdd), Non Walters (Llefaru a cystadleuaeth y Gadair) a Sarah Stewart (cystadleuaeth y Goron). Yn ystod y diwrnod a hanner o gystadlu, cyfeiriodd y beirniaid at safon eithriadol o uchel y cystadlaethau llwyfan a'r cynnyrch a ddaeth i law yng nghystadlaethau'r Goron a'r Gadair.

Testun y Gadair eleni oedd 'Ffiniau'. Enillwyd y Gadair gan Twm Ebbsworth o ddy Teifi, gyda Twm hefyd yn ail ac yn gydradd drydydd gyda Briallt Williams o ddy Dulas. 'Flood' oedd thema cystadleuaeth y Goron eleni. Lauren Hill o ddy Teifi oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth y goron, dyfarnwyd Aoife Wooding o Deifi'n ail a Sam Edwards hefyd o ddy Teifi'n drydydd.

Braf oedd gweld capteiniaid y tri thy sef, Ryan Mackie-Jones a Mari Elen Lewis (Creuddyn); Daniel Thomas, Grace Page a Gwenllian Jenkins (Dulas); Iestyn Evans a Cari Jones (Teifi) ynghyd â'u his-gapteiniaid a chefnogwyr, yn cydweithio'n arbennig o dda yn ystod cyfnod y paratoi, a'r Eisteddfod ei hun, er mwyn sicrhau eitemau safonol ac amrywiol. Ar ddiwedd y cystadlu, Teifi ddaeth i'r brig gyda 757 o bwyntiau, Creuddyn yn ail gyda 467 a Dulas yn drydydd gyda 413 o bwyntiau.

Nos Iau, Chwefror 15fed, cynhaliwyd cyngerdd 'Pigion yr Ŵyl', gyda neuadd lawn yn tystio i wledd amrywiol a difyr o eitemau, megis yr unawdau, deuawdau, meimiau, sgets, darnau offerynnol a'r dawnsio disgo - rhywbeth at ddant pawb! Gallwn ymfalchïo yn safon uchel y perfformiadau a bwrllwm afieithus y disgyblion. Talodd y brifathrawes, Mrs Jane Wyn deyrnged uchel iawn i'r disgyblion a fu wrthi'n ddyfal ac yn frwdfrydig yn paratoi at yr Eisteddfod. Diolchodd yn ddiffuant i'r staff hefyd am drefnu a goruwchwylio'r cyfan, i arweinwyr y noson, ein prif swyddogion – Alpha Evans a Hari Butten am eu cyflwyniadau graenus ac am eu gwaith caled yn ystod yr holl flwyddyn, ac i Miss Cerys Potter Jones a bois y sain a'r llwyfan am eu gwaith caled a phroffesiynol.

Hoffai'r disgyblion ddiolch i Mrs Delor James, Mrs Hedydd Thomas, Miss Heledd Besent a Mrs Llinos Jones am bob cefnogaeth ac am gyd-lynu Eisteddfod lwyddiannus a bythgofiadwy arall yn hanes Ysgol Bro Pedr. Yn wir, diolch i bawb a sicrhodd Eisteddfod lwyddiannus arall a erys yn y cof am amser hir.

Ffiniau

(I Malala)

Bws beunyddiol, di-nod,
a'i gynnwys eiddgar, brwd yn barod i brofi mwy.
Cyffur dysg sy'n denu,
a hithau'n awchu am wybod, am ddeall
am wthio'i ffiniau.
Brwdfrydedd tawel ydyw;
ond ma min malais ar y daith
a bygythiad yn dawch dinistriol.

Sgrech bwled yn gosb am ryddid barn,
am herio'r drefn;
am wthio eu ffiniau.
Difa gobaith, a diffodd golau.
Y cyffro fu'n ei cherdded, yn cyniwair ynddi,
yn pylu; am ennayd.

Yng ngwead ei bod,
mae grym geiriau yn graig,
yn ymfurfio'n obaith byw.

A ninnau, a'n diogi dyddiol,
yn cwyno a llusgo traed
o un arholiad i'r llall;
Heb ddeall gwerth y gair
na grym gwybodaeth.

gan 'Hawl' (sef Twm Ebbsworth, bl.13 - TEIFI)



Ymwelodd rhai o'n myfyrwyr Hanes Lefel A ag Auschwitz fel rhan o'r prosiect LFA. Cawsant hefyd gyfle i gwrdd â goroeswr yr Holocaust cyn yr ymweliad.




Llongyfarchiadau i'r holl disgyblion a oedd yn cystadlu yng nghystadlaethau traws gwlad Dyfed ddoe ym Mharc Dinefwr.



Llongyfarchiadau mawr i dîm Siarad Cyhoeddus Iau Bro Pedr am eu llwyddiant yn y gystadleuaeth Rotary Saesneg prynhawn dydd Llun, Chwefror 12fed. Yn ogystal, Liberty oedd y Cadeirydd gorau, Daniel Farr oedd y siaradwr gorau a Luca Asaf enillodd y wobwr am y bleidlais o ddiolch orau. Fe fydd y tîm yn mynd ymlaen at Bencampwriaeth Cymru yn y Bontfaen nesaf.

Derbyniodd Merched bl.8 dystysgrifau ar ôl rhoi cynnig ar y gystadleuaeth Girls Cyber Challenge gyda GCHQ. Cystadleuaeth ar gyfer Prydain gyfan oedd hon, a oedd hefyd yn annog merched i ddatblygu sgiliau e-ddiogelwch a meddwl am ddyfodol ym myd e-ddiogelwch. Da iawn chi ferched!

Llongyfarchiadau mawr i Elen Jones sydd wedi ennill cystadleuaeth bl.7-9 Cogurdd Sirol yr Urdd, gyda Martha Thomas yn ail, a llongyfarchiadau i George Newton am ddod yn ail yn rownd disgyblion bl.10. Da iawn hefyd i Michael McDonagh am wneud yn arbennig o dda.



Llongyfarchiadau mawr i Filip o flwyddyn 9 am ddod yn ail yn y gystadleuaeth Gymnasteg Cenedlaethol!



Sioned Fflur Davies, Teifi, yn ennill y mwyaf o farciau yng nghystadlaethau llwyfan a hefyd Cwpan y Cerddor Gorau; Elan Jones, Teifi, yn ennill tarian y Llefarydd Gorau ac Alpha Evans, Teifi, yn ennill Cwpan Gwaith Cartref am y mwyaf o farciau yn yr adran honno.



Enillwyr tarian y ddeuawd orau oedd Nia Morgan ac Elin Davies (Creuddyn).



Gyda'r Pasg yn pontio rhwng dau fis eleni, rhaid yw dechrau meddwl am pryd Sul y Pasg ar ddechrau mis Mawrth! Ydy, mae Sul y Pasg eleni yn cwmpo ar ddydd Ffŵl Ebrill, sef Ebrill 1af.

Braf fydd cael paratoi pryd o fwyd i'r teulu a dathlu'r Pasg a'i draddodiadau. Dyma fwydlen fodern a hawdd i'w pharatoi, a medrwyd baratoi llawer o'r bwydydd ymlaen llaw. Amser i eistedd a mwynhau wedyn gyda'r teulu – a'r wyau Pasg wrth gwrs !

Gareth

Dechreuwyd y Pasg

- 175g o eog wedi'i fygu
- 200g o gaws hufennog
- 1 llwy de o saws rhuddygl (radish)
- 1 llond llwy de o sudd lemwn
- Ychydig o gennin sifi

Dull

1. Torrwch yr eog yn ddarnau a chymysgwch â'r caws, saws, y sudd a'r cennin sifi.
2. Gweinwch wedi ei wasgaru ar fisgedi ceirch ac ychydig o ddail berw'r dŵr

Cig oen y Pasg

- | | |
|------------------------------|--------------------------|
| 1 coes cig oen | Ychydig o rosmari ffres |
| 4 llwy fwrdd o olew | 1 aubergine wedi'i dorri |
| 1 winwnsyn coch wedi'i dorri | 3 courgette wedi'u torri |
| 150ml o stoc cig oen | |

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C. Gwnewch doriadau dros y cig oen, a gwasgu darnau o'r rosmari i'r holtau. Gosodwch mewn tun rhostio, a thywallt ychydig o olew drosodd. Gorchuddiwch â ffoil, a rhostiwch am tua 1 awr a ½.
2. Cymysgwch y llysiau yn yr olew, a'u gosod o amgylch y cig, a rhostio eto am tua 40 munud. Gweinwch gyda llysiau a thatws newydd.

Tarten Mafon a Lemwn

- | | |
|------------------------|--------------------|
| 400g o does brau melys | |
| Llenwad: 150g mafon | 100g menynd meddal |
| 100g siwgwr mân | 2 ŵy |
| 75g almwnau wedi malu | 25g blawd plaen |
| Sudd a chroen 1 lemwn | Wyau siocled |
| | 100g siwgwr eisin |

Dull

1. Rholiwch y toes i faint tun 10 modfedd; gorchuddiwch â phapur gwrth-saim a ffa pobi. Pobwch fel hyn am 20 munud.
2. Curwch gynhwysion y llenwad nes eu bod yn hufennog.
3. Tynnwch y ffa pobi a'r papur o'r tun, yna rhowch y mafon ar y toes a gwasgarwch y llenwad arno. Pobwch am 20 munud.
4. Cymysgwch y siwgwr eisin a'r sudd lemwn, a sgeintiwyd dros y darten. Addurnwch ag wyau siocled, a gweinwch gyda hufen.

Cegin Gareth

Anrheg perffaith i Mam ar Sul y Mamau, Mawrth 11eg

Hamper £20 yn cynnwys:
Cacen wedi'i addurno; Pice bach; Siocledi Gareth;
Bisgedi brau; Pot o ffarmlêd; Pot o jam; Tsiytni

Based o flodau Sul y Mamau £15

Ffoniwch Gareth Richards 01570 422313



C.Ff.I. Ceredigion

Cynhaliwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion ddydd Sul 21 Ionawr, yng Nghampws Theatr Felinfach. Cafwyd diwrnod hwylus gydag aelodau o 14 o glybiau'r Sir yn dangos eu doniau wrth gystadlu, gyda'r beirniaid i gyd yn canmol y safon.

Y clwb a enillodd y nifer mwyaf o bwyntiau dros y pedair adran, ac yn ennill tarian Brynhogfaen gyda 74 o farciau oedd clwb Lledrod, gyda Pontsian yn ail â 73 marc ac yn ennill Cwpan Coffa Eric Davies, Prengwyn.

Yng nghystadleuaeth y darllen o dan 14 oed ac iau cafwyd 14 o dimoedd yn cystadlu, ac yn beirniadu oedd Miss Catrin Parry Williams, Penybont, a dyma'r canlyniadau:- Cadeirydd - 1af Sioned Fflur Davies, Llanwenog A; 2il Beca Jenkins, Pontsian A; 3ydd Glesni Morris, Llangwryfon. Darllenydd - 1af Sioned Fflur Davies, Llanwenog A; 2il Siwan George, Lledrod; cydradd 3ydd Ffion Davies, Llanwenog A; Hafwen Davies, Llanwenog A; Glesni Morris, Llangwryfon a Beca Jenkins, Pontsian A. Tîm - 1af Llanwenog A; 2il Llanwenog B; cydradd 3ydd Llanddewi Brefi C a Pontsian A.

Bu 11 o dimau o flaen y beirniad Mrs Edna Davies, Llysyfran yn y gystadleuaeth 16 oed neu iau, ac ar ddiwedd y gystadleuaeth yma, cafwyd y canlyniadau canlynol:- Cadeirydd – 1af Beca Williams, Talybont; 2il Hanna Davies, Llanwenog A; 3ydd Alaw Fflur Jones, Felinfach. Siaradwr – 1af Siwan George, Lledrod; cydradd 2il Heledd Evans, Caerwedros A a Gwion Ifan, Pontsian. Diolchydd – 1af Beca Jenkins, Pontsian; 2il Mirain Davies, Caerwedros A B; 3ydd Eleri Griffiths, Talybont. Tîm – 1af Caerwedros A; 2il Pontsian; 3ydd Lledrod.

Bu 8 tîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth Ddadl 21 oed neu iau, ac Arwel Jones, Llandeilo oedd yn cloriannu. Dyma'r canlyniadau:- Cadeirydd - 1af Mare Davies, Felinfach; 2il Meinir Davies, Llanwenog A; 3ydd John Jenkins, Lledrod. Siaradwr - 1af Nest Jenkins, Lledrod; 2il Meleri Morgan, Llangeitho; cydradd 3ydd Alaw Fflur Jones, Felinfach a Gwenyth Richards, Pontsian. Tîm - 1af Lledrod; 2il Felinfach; 3ydd Llangeitho.

Yn y gystadleuaeth 26 oed neu iau – Dadl - bu 9 o dimau yn cystadlu, gyda Mr Arwyn Davies, Talsarn yn barnu a dyma'r canlyniadau:- Cadeirydd – 1af Nest Jenkins, Lledrod; 2il Megan Lewis, Cymysg; cydradd 3ydd Eiry Williams, Llangwryfon a Sioned Davies, Llanwenog. Siaradwr – 1af Elen Jones, Llangeitho; 2il Endaf Griffiths, Pontsian; 3ydd Cennydd Jones, Pontsian. Tîm – 1af Pontsian; 2il Lledrod; 3ydd Llanwenog.

Cynhaliwyd cystadleuaeth ychwanegol yn ystod y diwrnod sef Ymgeisio am Swydd - a beirniadwyd y gystadleuaeth hon gan Eirwen Williams a Mare Rand Jones – 1af Lowri Jones, Lledrod; 2il Dewi Davies, Llandeiniol. Diolch i gwmni Arlwy Orwig Davies am baratoi'r lluniaeth ar y dydd. Bydd yr aelodau llwyddiannus yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli C.Ff.I. Ceredigion yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymru a fydd yn cymryd lle yn Llanellwedd ar Fawrth y 24ain, 2018. Pob hwyl i chi gyd.

Cynhaliwyd cwis ar y cyd gyda Fforwm yr Urdd yng Nghlwb Rygbi, Aberaeron ar yr 2il o Chwefror. Diolch i'r cwisfeistres sef Elli Dafydd, Bro'r Dderi am gadw trefn ar y noson. Llongyfarchiadau i Mare Davies; Tudur Jenkins; Alaw Mair a Huw Jones ar ddod i'r brig.

Cynhelir Gymanfa Ganu'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc nos Sul 18 Mawrth yng Nghapel Tabor, Llangwryfon am 7:30yh gyda lluniaeth ysgafn i'w ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

Dyddiadau i'r dyddiadur: 3 – 4 Mawrth: Gwledd o Adloniant C.Ff.I. Cymru, Rhyll; 11 Mawrth: Cyfeliadau Brenhines, Ffarmwr Ifanc a Dirprwyon y Sir; 16 Mawrth: Dawns Dewis Swyddogion, Gwesty Llanina Llanarth; 18 Mawrth: Cymanfa Ganu yn Capel Tabor, Llangwryfon; 21 Mawrth: Pwyllgorau Sir; 22 Mawrth: Noson C.Ff.I. gyda Gwili Jones, Llambod; 24 Mawrth: Siarad Cyhoeddus Cymru, Llanellwedd; 26 Mawrth: Cwis Iau'r Sir; 7 Ebrill: Cerdded yr Arfordir.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwy cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini gysurus
Clwb Rygbi Llambod yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Fe ddechreuodd 2018 o ddifrif i redwyr Clwb Sarn Helen, fel arfer, gyda ras brawf amser Crymch, ar y 29ain o Ionawr. Creadigaeth Roland a Pat Sherwood yw'r ras hon, dau sydd wedi bod yn gymwynaswyr cyson i'r byd rhedeg yng ngorllewin Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf, yn trefnu rasys ac yn darparu gwasanaeth canlyniadau cyfrifiadurol. Ras yw hon i dîmau o bum rhedwr dros gwrs chwe milltir a hanner ar hyd y ffyrdd cefn o gwmpas Crymch, dros ambell i riw serth ac yn cychwyn a gorffen ger y gampfa yn Ysgol y Preseli, pob rhedwr yn dechrau rhedeg rhyw 15 eiliad ar ôl y llall. Wedi cyfnod hir o fuddugoliaethau bu rhaid i dîm cyntaf dynion Sarn Helen fodloni ar ddod yn ail eleni, rhyw ddwy funud y tu ôl i gyfanswm amser tîm "West Coast Triathlon."

Er hynny yr oedd gan y clwb 4 tîm ymhlith y 60 o dîmau oedd yn cystadlu, a llwyddwyd i ennill y dosbarth i dîmau dynion dros 40 oed. Gwnaeth tîm y menywod yn ardderchog i ddod yn drydydd y tu ôl i fenywod clybiau Dyffryn Aman (1af) a Cemaes (2il).

Daeth llwyddiant arbennig i Ken Caulkett ar ran Sarn Helen yn ras lwybr 10 cilometr "Buff Wales" ym Mhort Talbot ar y 14eg o Ionawr, ac yntau'n ennill mewn 38 munud a 49 eiliad. Ar yr un diwrnod daeth Carwyn Davies yn ail dros 40 oed mewn 83 munud a 7 eiliad yn hanner marathon Caerloyw.



Ar yr 20fed o Ionawr aeth 10 o redwyr y clwb i redeg hanner marathon lwybr yng Nghoed Y Brenin, a daeth Carwyn Davies yn 8fed dros 40 oed gyda Steven Holmes, Nigel Davies a George Eadon yn ei ddilyn.

Ar yr 21ain o Ionawr bu dau o redwyr ifanc Sarn Helen yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Dan-do Gorllewin Cymru yn Abertawe. Aeth Casi Gregson drwodd i Bencampwriaethau Cymru wedi rhedeg amser cyflyma'r dydd dan 11 oed, dros 60 metr (9.45 eiliad), a daeth Cai Allen o fewn trwch blewyn i ymuno â hi.

Ar yr un dyddiad bu nifer o redwyr Sarn Helen yn rhedeg yn rasys 5 a 10 cilometr Campau Caron yn Nhregaron, a heriodd Llywydd y Clwb, Lyn Rees, y tywydd ac anaf hirdymor i redeg ei ras gyntaf ers rhai blynedd. Yn y ras ieuenticid daeth Harri Rivers yn 1af a'i frawd Steffan yn 7fed.



Harri a Steffan Rivers

Ar yr 11eg o Chwefror, mewn gwynt oer a chawodydd cesair, cynhaliwyd hanner marathon Tregaron, un arall o rasys blyneddol gorllewin Cymru a gynhaliwyd yn ei ffurf bresennol ers troad y ganrif - o amgylch Cors Caron gan godi a disgyn o Dregaron i Swyddffynnon ac Ystrad Meurig gan ddychwelyd ar y gwastad ar hyd Llwybr Beic Ystwyth. Yr oedd 131 yn rhedeg eleni a John Collier ("West Coast Triathlon") yn ennill mewn 77 munud a 45 eiliad, tua 2 funud a hanner o flaen Owain Schiavone o Glwb Aberystwyth gyda Ken Caulkett o glwb Sarn Helen yn drydydd clos, a Simon Hall yn gorffen yn 7fed (85:54) ychydig o

flaen Glyn Price (11eg mewn 88:37 ac yn ail dros 50 oed). Daeth gwobrau eraill i'r clwb trwy Aled Jones (yn 24ain mewn 92:54 ac yn ail dan 21 oed), Dee Jolly (25ain mewn 93:18 ac yn ail yn ras y menywod y tu ôl i Claire Bunce o Abertawe), Caryl Wyn Davies (30ain mewn 95:48 ac yn 3ydd yn ras y menywod), Delyth Crimes (121:47 a'r 3ydd fenyw dros 45 oed), Tony Hall (41ain mewn 99:57 ac yn ail dros 60 oed) a Murray Kisbee (43fed mewn 101:14 ac yn 3ydd dros 60 oed). Yr oedd 25 o glwb Sarn Helen yn rhedeg a chafwyd perfformiadau da gan Jack Cockburn (20fed mewn 91:45), Mark Rivers (21ain mewn 91:53), Meic Davies (26ain 93:22), Steven Holmes (28ain mewn 94:21), George Eadon (29ain mewn 94:39), Nigel Davies (34ain mewn 96:46), Eleri Rivers (54fed mewn 94:22), Michael Taylor (57fed mewn 105:23), Eric Rees (62ain mewn 108:11) a Mitch Readwin (64ain mewn 108:38). Llongyfarchiadau ar gwblhau'r ras hefyd i Andrew Edgell, David Thomas, Pamela Caeer, Jen Caulkett, Dorian Rees a Nicola Davies.

Y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn y byd rhedeg yn y ganrif hon yw twf y "Park Run"- ffenomenon fyd-eang y 5 cilometr oddi ar y ffordd fawr, am 9 o'r gloch ar fore Sadwrn, sydd yn gyffredin yn ein dinasoedd erbyn hyn. Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymryd rhan gofrestru gyda'r mudiad "Park Run" ar y we a throi i fyny i redeg heb dâl, gan ddefnyddio barcôd fydd yn galluogi recordio amser pob rhedwr ar y we. Diolch i ymdrechion Ken a Jenny Caulkett ac i gefnogaeth y clwb, fe sefydlwyd "Park Run" yn Llanerchaeron, wedi ei leoli ger canolfan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yn gynnar ar fore Sadwrn y 10fed o Chwefror cynhaliwyd "Park Run" cyntaf Llanerchaeron yn llwyddiannus. Bydd hyn yn ddigwyddiad cyson o hyn ymlaen trwy'r flwyddyn am 9 o'r gloch ar fore Sadwrn. Cofiwch fod croeso i bawb o bob safon i gymryd rhan ac i redeg mor araf neu gyflym ag y dymunant.

Rhifyn Ebrill

yn y Siopau

5 Ebrill

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn

26 Mawrth

Gofynnir am gyfraniad o

£5

er mwyn cynnwys neges o
ddiolch ym Mhapur Bro Clonc

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

			7		4
3			1	5	9
	5		2	9	4
6					2
	4				6
		2			8
	7		8	4	1
1			5		2
4			3		

Swdocw Chwefror:

Llongyfarchiadau i:
John Jones, Stryd Newydd, Llanbed, a diolch i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann; Mair Williams, Awelfa, New Inn; Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Richard Evans, Godre'r Coed, Olmarch.

7	2	8	4	5	1	9	6	3
4	5	3	9	8	6	1	2	7
9	1	6	7	3	2	8	5	4
6	4	7	8	2	5	3	9	1
1	8	2	3	6	9	4	7	5
5	3	9	1	4	7	6	8	2
2	9	5	6	1	4	7	3	8
3	6	1	2	7	8	5	4	9
8	7	4	5	9	3	2	1	6

Drefach a Llanwenog

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Diolch i'r Cyngor Ysgol a fuodd yn cyflwyno Polisi Gwrth-Fwlio ac egwyddorion trin pawb fel y'ch chi am gael eich trin, mewn gwasanaeth ar ddechrau Chwefror. Cafwyd negeseuon pwrpasol ganddynt gan gynnwys sut i ddelio gyda hyn. Llongyfarchiadau i Megan a gynlluniodd glawr ar gyfer ein Polisi Gwrth-Fwlio.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Cogrdd yn yr Ysgol, a 14 o ddisgyblion – bechgyn a merched, yn cystadlu yn y gystadleuaeth boblogaidd yma. Salad Asiaidd creisionllyd oedd ar y fwydlen. Diolch i Mrs Gillan Jones, Arlwy Ceredigion, am feirniadu a llongyfarchiadau i Elan Jenkins am ennill rownd yr Ysgol.

Buodd Elan yn cystadlu wedyn, yn coganio y salad asiaidd creisionllyd a tagiatelle bolognaise, yn erbyn disgyblion eraill yn y sir. Roedd hon mewn tair rhan - sesiwn bore, prynhawn a noswyl. Roedd tri disgybl o bob sesiwn yn mynd trwyddo i'r rownd derfynol yng Ngheredigion, a llwyddodd Elan Jenkins i gynrychioli 9 o Geredigion yn y rownd derfynol.

Cystadlu ym Mro Teifi oeddynt ar gyfer y rownd derfynol unwaith eto – yr un fwydlen â'r rownd flaenorol – a llwyddodd Elan i ennill safle – cydradd drydydd! Gwych Elan! Tipyn o goganio – a bwyd blasus iawn. Diolch am ddod â pheth i ni flasu! Arbennig!

Croesawyd Esgob Joanna i'n plith ar ddiwrnod Santes Dwynwen – a braf oedd ei gweld yn sgwrsio a holi'r Cyngor Ysgol am yr ysgol a sut roedd pethau yn datblygu yn yr ysgol newydd. Bu'r disgyblion yn canu anthem yr ysgol iddi hi a'r criw ddaeth i ymweld. Diolch hefyd i Jean Voyle Williams a Canon Bryan Witt am ymuno â hi. Hyfryd yw gweld Ficer Suzy yn ymuno â ni yn wythnosol bellach i gymryd gwasanaeth.

Hyfryd oedd gweld y gymuned yn dod i wrando ar hanes difyr Simon Evans yn rhoi cefndir drwy'r oesoedd i Hanes Plwyf Llanwenog. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at Cylch Meithrin Dyffryn Cledlyn! Cafwyd noson ddifyr a diwylliedig dros ben.

Roedd cyffro mawr ym mlynnyddoedd 3 a 4 ar ddiwedd Ionawr wrth iddynt fynd am noson i Wersyll Llangrannog. Er y glaw ar fore Llun, ni welwyd glaw tan brynghawn Dydd Mawrth wedyn - wedi i'r disgyblion ddod adref. Cawsant noson wefreiddiol, gan fwynhau gweithgareddau yn amrywio o saethyddiaeth, gwibgartio, nofio, marchogaeth, wal ddringo, trampolîn, dawnio gwerin, disgo, heb son am yr holl fwyd! Erbyn dychwelyd nos Fawrth roedd

golwg wedi blino ar bawb – a diolch o galon i Mr Ebbsworth a Miss Louise am fynd gyda nhw! Amser bythgofiadwy!



Rydym yn ddigon ffodus i fod yn rhan o Ysgolion Creadigol Arweiniol unwaith eto eleni o dan nawdd Y Cyngor Celfyddydau. Cyd-weithio yr ydym gyda chwmni CISP Multimedia i greu ffilm a chynhyrchiad – a'r disgyblion yn ymgymryd gyda'r holl elfennau - cyfansoddi, creu barddoniaeth, ffilmio, golygu a troslais - profiadau unigryw a newydd. Mi fydd holl aelodau disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cyd-weithio ar y broses gyfan o greu ffilm. Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen hefyd yn derbyn cyfle i gyfrannu. Thema ein ffilm bydd "Eco" sydd yn cydweddu yn berffaith ag egwyddorion yr Eco-sgolion ar hyn o bryd, a hefyd thema'r Ysgol sef Ail-gylchu! Cadwch lygaid ar ein tudalen trydar @dyffryncledlyn am ddatblygiadau pellach.

Bu'r disgyblion yn gwneud gweithgareddau yn ein hatgoffa o bwysigrwydd diogelwch ar y we ym mis Chwefror unwaith eto. Buodd y dewiniaid digidol yn creu cloriau i lyfrau'r disgyblion a gosod gwaith cartref – creu clawr i lyfrau gwaith cartref y disgyblion.

Croesawyd holl staff Ysgolion Cylch Llanbed i Ysgol Dyffryn Cledlyn ar y 7fed o Chwefror – wrth i ni graffu ar lyfrau ein gilydd i rannu arfer dda. Cafwyd noson hyfryd a phawb yn mwynhau derbyn cyfle i sgwrsio a thrafod. Cyfle i drafod nŵl yn yr ysgolion nawr i weld beth fydd y camau nesaf.

Daeth Bethan Phillip Davies i weld y Cyngor Eco yn ddiweddar i weithio ar agwedd o amgylchedd tu allan yr ysgol. Mi fyddant yn edrych i ddatblygu yr ardal tu allan ac yn anelu am y cam cyntaf yn Eco-sgolion erbyn diwedd y flwyddyn! Daliwch ati bwyllgor Eco.

Croesawyd aelodau o'r WI atom ar y 14eg o Chwefror, Diwrnod Sant Ffolant, wrth i'r cyngor eco osod gwaith cartref - creu calonnau gwyrdd gan feddwl am yr amgylchedd ac ailgylchu ac



Disgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn yn joio yn Llangrannog.

ail ddefnyddio. Crëwyd calonnau gwych o bob math ac o bob maint. Diolch i bawb am gefnogi - a chofiwn gefnogi'r ymgyrch o garu'r amgylchedd.

Bu disgyblion, ar ddiwrnod braf ym mis Chwefror, i Amgueddfa Wlân Drefach Felindre yn dysgu am y broses o greu carthen drwy ail-ddefnyddio. Cafwyd diwrnod hyfryd yn dysgu am yr hen ddull o olchi dillad, nyddu gwlân a ffeltio gyda gwlân. Buont yn gwyllo'r broses o greu carthen yn digwydd, a holi cwestiynau treiddgar a phwrpasol am y broses. Diolch i Mrs Mills am drefnu, ac am ddefnyddio adnodd lleol ar stepen drws! Diwrnod bendigedig!

Mae disgyblion Cyfnod Sylfaen wedi bod yn derbyn gwersi beicio cydbwysedd eleni, a nifer ohonynt yn mwynhau y profiad a'r adnodd sydd gyda ni yn yr ysgol. Maent wedi joio ar y beiciau.

Diolch yn fawr i Ymddiriedolaeth R.R. Davies am gyfraniad tuag at ein pyst pêl rwyd newydd a mat trwchus ar gyfer cyflawni campweithiau gymnasteg. Derbyniwyd y nwyddau yn ddiweddar, ac yn barod maent yn cael defnydd. Diolch yn fawr i'r Ymddiriedolaeth am ei haelioni.

Rhag rybudd – Cynhelir Ras Dyffryn Cledlyn ar y 7fed o Fai – rasys i ddisgyblion cynradd uwchradd ac oedolion. Ras cyntaf yn cychwyn am 12.45 y.p. yn yr Ysgol.

Eglwys Santes Gwenog

Llongyfarchiadau i Mat a Charlotte Clarke ar enedigaeth mab bach arall, brawd i Alfie ac ŵyr i Alan a Wendy Mellor, Rhiwson Isaf.

Croeso adref i Tomos Evans, Vale of Cledlyn, Drefach wedi iddo dreulio blwyddyn allan yn Seland Newydd. Mae pawb yn falch ei fod wedi cyrraedd adre'n ddiogel ar ôl cyfnod anturus ac addysgiadol.

Bydd Tymor y Pasg yn cychwyn â Gwasanaeth undebol i'r bedair Eglwys yn Eglwys Llanwnnen ar Sul y Blodau, Mawrth 25ain am 10:30 y.b. Yna bydd gwasanaeth yn Eglwys Llanwenog Dydd Iau Cabyld, Mawrth 29ain am 7 y.h.

Dydd Sul y Pasg, Ebrill 1af, bydd Cymun Bendigaidd yn Eglwys Llanwenog am 9:30 y.b. Croeso cynnes i bawb.

Dymunwn Basg hapus a bendithiol i bawb, a chofiwn am bawb sy'n anhwylyd yn eu cartrefi neu mewn ysbyty. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r rhai sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar.

Clwb Cant Mis Rhagfyr 2017: 1. Stephen Mellor, Rhiwson Isaf; 2. Richard Thomas, Sarnau; 3. Ceri Davies, Cwmann. Bonws 1. Eleri Lewis, Rhiwson Uchaf; 2 Y Parch Suzy Bale. Mis Ionawr 2018: 1. David Cooper, Cwmann; 2. Alan Morgan, Llambedy; 3. Daniel Thomas, Ffosffald



Yn Eisteddfod Dihewyd a gynhaliwyd Nos Wener, Ionawr 26ain, Elen Morgan, Drefach enillodd y Cwpan am y llafari 10-12 oed.

Y Gymdeithas Hŷn

Capel y Cwm oedd man cyfarfod mis Chwefror, a daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd er waethaf y tywydd garw. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, Dilwen George, a dymunodd benblwydd hapus i 4 o'r aelodau fyddai'n dathlu yn ystod y mis. Dymunwyd gwellhad buan i bawb sy'n anhwylyd, a chydymdeimlwyd ag Avril Davies, Heddfryn, Llanybydder wedi iddi golli ei mam yn ddiweddar.

Pleser oedd cael croesawu dau o aelodau'r gymdeithas atom fel

Drefach

siaradwyr gwadd, sef Pamela ac Emlyn Davies, Cwrtnwydd. Roeddynt wedi dod â llond bwrdd o'u gwaith crefft i'w arddangos, ac i roi ychydig o hanes amdanynt. Gwaith gwnïo a gwau oedd cyfran Pamela – yn ddoliau o wahanol maint, a chlustogau, i enwi ond rhai. Gwaith coed oedd yn mynd â bryd Emlyn, gan greu teganau di-ri yn dractorau ac offer fferm, topiau, basgedi i'r ardd neu i ddal blodau ayyb. Mwynhawyd clywed hanes eu creu yn fawr, - ac i glywed am y corryn bach fyddai'n cuddio rhywle ar y darnau. Diolchwyd yn gynnes iddynt gan Gwyneth Morgans. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan chworiydd Capel y Cwm, a diolchwyd iddynt hwythau gan Beryl Lewin.

Bydd y cyfarfod nesaf Dydd Mercher, Mawrth 14eg, am 1.30 o'r gloch yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach, pan fydd y plant yn rhoi adloniant i'r aelodau. Pob dymuniad da iddynt yn yr Eisteddfod Gylch cyn hynny.

Diolch

Dymuna Gillian Lewis, Eirianfa, ddiolch yn fawr am yr holl gardiau, blodau ac arian a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig. Diolch yn fawr iawn.

C.Ff.I. Llanwenog

Diwedd mis Ionawr buodd y Clwb yn ymweld â chwmni bwyd Castell Howell lawr yn Cross Hands.

Cawsom ein tywys o amgylch yr adeiladau a dysgu sut mae bwyd yn cael ei baratoi a'i ddosbarthu drwy Gymru gyfan.

Roedd yn noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol. Cawsom noson wedyn o baratoi a bwyta pancws, ac roedd pawb wedi mwynhau.

Treuliwyd gweddill y mis yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Pantomeim y sir. Mae pawb wedi bod yn brysur yn dysgu geiriau, symudiadau a chaneuon, ac os ydych am ddod i'n gweld ni byddwn yn perfformio ar y 5ed o Fawrth yn Ysgol Dyffryn Cledlyn am 7:30y.h.

Bydd croeso cynnes i bawb.

Llanwnnen

Capel y Groes

Fore Sadwrn y 10fed o Fawrth, rhwng 10 a 12 o'r gloch, cynhelir bore coffi yn festri Capel y Groes, Llanwnnen. Bydd y digwyddiad yn codi ymwybyddiaeth ac arian tuag at Mind Cymru, elusen iechyd meddwl, gan fod Undodiaid Cymru wedi penderfynu cefnogi elusennau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl eleni. Bob blwyddyn, mae un ymhob pedwar ohonom yn profi problem yn ymwneud ag iechyd meddwl. Dewch draw i gefnogi a chymdeithasu, - bydd croeso cynnes i bawb.

Dolen Cymru yn dod i'r brig

Dolen Cymru yn ennill Gwobr gynladwyedd yng Ngwobrau Cymru Affrica

Mae'r elusen Dolen Cymru wedi gweithio ers dros ddeng mlynedd ar hugain yn Lesotho, Affrica. Cydlynwyd y digwyddiad gan Hwb Cymru Affrica, gyda chyllid Cymru dros Affrica Llywodraeth Cymru, i gydnabod y cyfraniad enfawr y mae unigolion, grwpiau cymunedol ac elusennau bach yng Nghymru yn gwneud tuag at wella bywydau pobl ar draws Affrica.



Dyma Gareth, Sharon a Veronica yn dathlu llwyddiant y fenter!

O dros 80 o enwebiadau, wrth ddyfarnu'r Wobr Cynladwyedd i'w prosiect Llam Llythrennedd Lesotho, gwelodd y beirniaid bod Dolen Cymru, nid yn unig wedi codi safonau llythrennedd plant ar draws Lesotho ond yn grymuso athrawon Basotho i fod yn arweinwyr y prosiect ac i wneud newidiadau tymor hir.

Trwy fentora athrawon wrth eu gwaith, cynnal gweithdai a chynhadledd llythrennedd y llynedd, mae cannoedd o athrawon Basotho wedi'u hyfforddi mewn llythrennedd, gan gynyddu cyfleoedd i filoedd o blant.

Dywed Gareth Morgans (Cadeirydd Ymddiriedolwyr Dolen Cymru), 'Mae'n amlwg mai'r gwaith partneriaeth a chydweithredu rhwng athrawon Basotho a Chymraeg sy'n sail i effaith barhaol a chynladwyedd y rhaglen Llam Llythrennedd Lesotho. Diben craidd Dolen Cymru yw i gryfhau a chyfoethogi cymunedau. Wrth gyflawni newid cynladwy trwy wella dealltwriaeth a gwella seilwaith gallwn ddod â bywydau a sgiliau at ei gilydd i greu cyfle ac addewid.'

I ddysgu mwy am waith Dolen Cymru a sut y gallwch gymryd rhan trwy wirfoddoli neu godi arian, ewch i wefan www.waleslesotholink.org, ebost swyddfa@dolencymru.org neu ffoniwch 02920 497390.

Lansio 'I Gofio'r Gaeafau'

Pan fu farw'r bardd Ann Rhys Davies, yn 2014, roedd yna ddwy eitem wahanol yn yr ewyllys – dwy eitem a fynegai ddyfnder ei chariad at ein diwylliant yn ogystal â'n hiaith trwy osod her: yr her o weithredu.

I Theatr Gydweithredol Troedryhiw y gosodwyd y naill ac i nythaid o feirdd Ceredigion y gosodwyd yr ail her. Dros gyfnod o bymtheg gaeaf cynhaliwyd dosbarth nos yn trafod a chreu cerddi yn Festri Brondeifi, Llanbed. Un o'r aelodau oedd Ann Rhys, a'r her a adawodd drwy waddol ei hewyllys, oedd i'r beirdd gyhoeddi detholiad o gerddi.

Medd y prifardd Idris Reynolds, arweinydd y dosbarth: 'I mi bu treulio dwyawr bob nos Fercher yng nghwmni deallus a gwâr yr aelodau yn bleser pur. Mae gennyf atgofion melys am lawer i drafodaeth ddifyr a gafwyd yn eu cwmni.'

Ac yn awr, bedair blynedd wedi marw Ann, mae Idris, â chymorth Roy Davies, gweddw Ann, a chyfeillion eraill wedi cwrdd â'r her o wireddu ei hewyllys. Canys yn Festri Brondeifi, Llambod, nos Iau, 22 Mawrth am 7.30 o'r gloch lawnsir y gyfrol I Gofio'r Gaeafau yng nghwmni artistiaid lleol.

Mae'r gyfrol fach hardd yn sicr o gael croeso mawr – yn enwedig yng nghefn gwlad Ceredigion. Medd Idris Reynolds: 'Mae'n gasgliad cyfoethog am fod yma ganu sy'n llon a lleddf, ysgafn a dwys – cerddi sydd yn eich goglis at chwerthin a'ch hennyn i bwylllo a dwysfyfrio hefyd. Mewn gair: y bardd gwlad ar ei orau.'

Beirdd y gyfrol yw: Aeron Davies, Elwyn Davies, Wynne Edwards, Islwyn Ffowc Elis, Arwyn Evans, John Rhys Evans, Aerwen Griffiths, Glyn Ifans, Gareth Lloyd James, Dafydd Lloyd Jones, Gillian Jones, Gwen Jones, Sam Jones, Ken Lewis, Islwyn Morgan, Megan Richards, Ann Rhys, Islwyn Walters ac Eirwyn Williams.

Pris I Gofio'r Gaeafau fydd £5.00 a, diolch i ewyllys Ann, cyflwynir pob dime o'r gwerthiant at gronfa Ymchwil y Galon, Ceredigion.

SWYDD NEWYDD

Swyddog Gweinyddol C.Ff.I. Sir Gaerfyrddin



Mae C.F.F.I. Sir Gâr yn chwilio am berson brwdfrydig i weithio yn Swyddfa'r Sir gan gyflawni gwaith gweinyddol ar gyfer y Mudiad.

Swydd lawn amser yw hon ond ceir peth hyblygrwydd yn yr oriau.

Dyddiad Cau: Dydd Iau, 29ain Mawrth

Llythyr Cais a CV at:
Mr Rhodri Lewis, Swyddfa C.F.F.I. Sir Gaerfyrddin, Tŷ Amaeth,
Lle Cambrian, Caerfyrddin. Sir Gâr, SA31 1QG
neu sir.gar@yfc-wales.org.uk

01267 237693 @effisgar Cams YFC - CFI Caerfyrddin



01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

Gwesty'r
Grannell
Hotel
Bar & Restaurant

Llanwnnen, Llambod
Ffôn: 01570 480476

Bwyd
Diod
Ystafell i gynnal digwyddiad
Ystafelloedd gwely



Cyllid Amaethyddol, Adeiladu & Busnes • Offer Amaethyddol ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau Masnachol • Cyfleusterau Amddiffiniad Offer Newydd a Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi

Mŵ, meddai'r fuwch! oedd thema plant y Cyfnod Sylfaen yn ystod yr hanner tymor a aeth heibio - cyfle gwych i ddysgu am ddulliau ffermio o fewn ein cymuned.

Bu plant y Meithrin a Derbyn yn ymweld â Fferm Ystrad Dewi trwy garedigrwydd Mr a Mrs Dafydd Lloyd Jones a'r teulu. Braf oedd cael y cyfle i weld sut mae da yn cael eu godro, gweld y moch a'r wyth mochyn bach newydd eu geni y bore hwnnw, cael cyfle i fwydo'r lloï bach a'r ieir a thaflu gwellt o dan y defaid. Doedd nifer o'r plant bach heb fod ar fferm erioed o'r blaen, felly dyma brofiad bythgofiadwy iddynt i weld fferm o'r radd orau yn cael ei ffermio gan y teulu cyfan.

I Gwarffynnon yn Silian aeth blwyddyn 1, i weld Dei a Gwen a'r teulu sydd yn ffermwyr llaeth heb eu hail. Unwaith eto dyma gyfle i ddysgu o ble mae llaeth yn dod ac yna i werthfawrogi gymaint o gynnyrch sydd yn cael ei wneud allan o laeth. Aethant hefyd i Lanerchaeron er mwyn gweld sut mae ffermio wedi newid, a dysgu am hanes godro o'r amser pan oedd tyddynnau yn cadw un buwch ar gyfer godro â llaw, hyd at godro heddiw mewn parlwr trydanol sy'n godro ugain neu mwy ar y tro! Wedi dod yn ôl i'r ysgol bu plant blwyddyn 1 yn gwneud menyngau iawn allan o hufen.

Aeth blwyddyn 2 i Fferm Olmarch Fawr at Odwyn ac Ann, ffrindiau mawr yr ysgol. Wedi cynnal sesiwn holi ac ateb cyn hynny, bu Odwyn yn rhannu ei brofiadau o ffermio dros sawl degawd. Heb os, uchafbwynt y prynhawn oedd cael gweld gwartheg yr Ucheldir a'u cyrn hirion ac wrth gwrs cael reid yn y treilar bach gydag Odwyn yn gyrru'r cwad!

Diolch o waelod calon i'r dair fferm am roi profiadau gwych i'r plant.

Uchafbwynt y dysgu oedd cynnal bore cymdeithasol yn yr ysgol gyda rhieni a ffrindiau'r ysgol yn cael y cyfle i flasgu cynnyrch a wnaethpwyd gan blant y Cyfnod Sylfaen.

Wedi iddynt gasglu gwenith a dyfwyd yng ngardd yr ysgol aeth blwyddyn 2 i Felin Ganol, Llanrhystud er mwyn gweld y broses o falu brawd. Yna, yn ôl â hwy â'r brawd i'r ysgol er mwyn pobi bara. Ble oedd orau i ddysgu sut i wneud hyn, ond i fusnes teuluol Mr a Mrs Elfân James, Eirian a Carolyn ym mhopty Mark Lane Llanbed. Gwelwyd y broses o bobi bara a chafodd bob plentyn toes i fynd adre er mwyn pobi bara eu hunain. Diolch o galon i chi am y croeso a'r addysg ac am y gacen siocled flasus!

Yr oedd blwyddyn 1 eisoes wedi bod yn paratoi'r menyngau ar gyfer y bore. Bu plant y Meithrin a Derbyn yn brysur yn torri mefus ar gyfer gwneud jam cartref, ychydig o sudd lemwn, digon o siwgr a berwi'r cyfan nes creu jam bendigedig. Yna ei botio mewn potiau jam bychain, gyda labeli personol i bob plentyn.

Cafwyd bore hyfryd yn ymlacio yng nghwmni rhieni a ffrindiau. Roedd y plant yn smart iawn yn eu ffedogau yn gweini bara, menyngau a jam i'r rhieni ac yn cael y cyfle i flasgu dros eu hunain. Diolch am y gefnogaeth ac edrychwn ymlaen i gael y cyfle yma eto i roi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas a chael y cyfle i gymdeithasu.



Diolch i Ifan Jones Evans o Bonrhydygroes am ddod i rannu ei lyfr 'Nan a'r Sioe Fawr' gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Roedd pob un plentyn wedi eu hudo wrth iddo ddarllen darn o'r llyfr iddynt. Cawsant y cyfle i ofyn cwestiynau iddo am ffermio a hefyd am ei waith fel cyflwynydd y rhaglen boblogaidd 'Fferm Ffactor'.

Llongyfarchiadau mawr i Lili Hull am lwyddo i ennill lle yn y rownd derfynol o gystadlaeth Cogurdd Ceredigion. Da iawn ti am wneud dy orau glas a diolch i Miss Jen am yr holl waith hyfforddi.

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dathlu diwrnod Vasant Panchami sef gŵyl Hindwaidd sy'n dathlu cychwyn y gwanwyn. Roedd pawb wedi dod yn eu gwisgoedd melyn a chafwyd tipyn o hwyl yn creu barcutiaid.

Diolch i Robin Williams o CYDAG am ddod i gynnal gweithdy ym mlwyddyn 3 a 4 ar sut i greu rhaglen rhagolygon y tywydd. Bu'r plant yn defnyddio apiau MeteoEarth, Tywydd S4C i ysgrifennu sgript ac yna bu'r plant yn defnyddio GreenScreen ac iMovies ar gyfer golygu'r cyfan i greu

un rhaglen. Roedd tipyn o waith ynghlwm â'r peth ond mae modd i chi weld ffrwyth ein llafur ar ein cyfrif trydar @ysgol_y_dderi.

Bu'r ysgol yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau megis creu addewidion, canu cân SMART a chynnal trafodaethau ar Ddiwrnod Diogelwch y Wê unwaith eto eleni. Cadwch yn ddiogel!



Mae'r hinsawdd yn newid, ac fel rhan o'u thema bu disgyblion blwyddyn 3 a 4 yn ymweld â Gorsaf Trydan Hydro Rheidol i ddysgu sut mae gwneud trydan mewn ffordd glân sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd. Roedd y generadur yn fyddarol wrth i nerth y dŵr o'r afon Rheidol ruthro heibio i dyrbin â phostyn! Roedd magnet ar ddiwedd y postyn, a hwnnw'n troelli o fewn gwifrau copr. A dyna ni – trydan! Copr, magnet a symudiad, mae'n syml.

Dathlwyd Dydd Miwsig Cymru ar draws yr ysgol. Yr uchafbwynt oedd fideo-pop blwyddyn 2 o gân "Ni'n beilo nawr!" gan y Welsh Whisperer. Joio.



Daeth cwmni SGRipt i'r ysgol, sef Rebecca a Guto i ffilmio rhaglen ddogfen fer am yr hinsawdd. Cafodd y disgyblion y profiad o fod yn rhan o dîm gynllunio ac roedd nifer wedi elwa o'r cyfarwyddyd ar sut i siarad i fewn i lens y camera. Roedd pawb wedi dysgu tipyn am sut i fframio lluniau hefyd ac i fod yn rhan o dîm golygu. Ar ddiwedd y dydd roedd gennym raglen ddogfen broffesiynol i rannu, dyna beth oedd gweft.



Diolch i Casia William sef Bardd Plant Cymru am ymweld â disgyblion blwyddyn 3 a 4 i gynnal gweithdy barddoniaeth. Bu'r plant yn cyfansoddi cerddi am Y Gwanwyn ac roedden nhw wedi cael prynhawn bythgofiadwy yn ei chwmni. Diolch o galon.

Llongyfarchiadau anferthol i Christie, Chantelle a Nyle am gael y cyfle i arddangos eu gwaith celf mewn arddangosfa yn y TATE yn Llundain ddiwedd mis Ebrill!

Llangybi a Betws

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Huw a Llinos Evans, 5 Godre'r Coed ar ddathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Hamdden

Cyfarfu yr aelodau ar Chwefror 2il yn Ysgol Y Dderi gyda'r llywydd Janet Farrow yn y gadair. Croesawyd pawb yn gynnes. Y wraig wadd oedd Sheila Yellings ac fe gawsom anerchiad diddorol a lluniau, a gwelsom eitemau a gasglwyd o wahanol ardaloedd o Ddwyrain Affrica ganddi. Bu ynghlwm â phrosiect cymunedol yn Affrica gyda phlant yn ei arddgau yn gyfrifol am y gwaith caib a rhaw. Rhoddwyd pleidlais ddiolchgar gan y llywydd am brynhawn mor ddiddorol ac am y cacennau bach sydd yn boblogaidd iawn yn Kenya i'w blasu gyda'n te. Rhoddwyd y te a'r bisgedi i ddiweddu y cyfarfod gan Maisie Morgan a Betty Lockyer.

Enillwyd y Raffl gan Myra Mortlake, Gwen Lewis, Maureen Williams, Mair Spate, Barry Williams a Betty Lockyer.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 1af yng nghegin Gareth Richards am 12.30 i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu y gangen ar Chwefror 13eg dan lywyddiaeth Gwyneth Jones. Y Bon.John Meredith oedd

ein gŵr gwadd ac fe gafwyd noson ddiddorol a difyr yn ei gwmni a phawb wedi mwynhau yr hanesion. Bu'n sôn am ddigwyddiadau a chymeriadau y cyfarfu â hwynt yn ei yrfa fel gohebydd i'r BBC. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch iddo am noson gofiadwy yn llawn straeon difyr a thrist gan Mair Spate.

Rhoddwyd y Raffl gan Deborah Jones ac fe'i henillwyd gan Odwyn Davies. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei roddi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis. Dalier sylw: Fe fydd y cyfarfod nesaf am 7.00y.h. yn y Pantri ar Fawrth 14eg.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â Dr Emyr Jones ar farwolaeth ei dad yn ddiweddar, ac i'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonog i Mr Dilwyn Pugh, Bro'r Felin ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Chwefror 26ain. Gobeithio y cawd diwrnod bendigedig i fwynhau ymysg y teulu a ffrindiau.

Diolch

Dymuna Huw a Llinos Evans, 5 Godre'r Coed ddiolch o waelod calon i bawb am y cardiau, arian ac anrhegion ar achlysur eu Priodas Arian. Diolch yn fawr iawn.

Myfyrdodau Jones y Fish

Dyma un arall o bump erthygl a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer papur bro gan Huw Evans, Alltgoch, Cwrtnewydd a enillodd iddo'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Yn ôl y beirniad, Catrin Withers, roedd Jones y Fish – neu Huw Alltgoch i ni – yn "... ysgrifennu'n dda mewn tafodiaith rywiog." Mae'n bleser gan Clonc gael cyhoeddi'r gwaith gan wybod y bydd yr erthyglau'n rhoi mwynhad mawr i'n darllenwyr.

'Man lle bo 'nghyfeillion ...'

Yn ôl Eirwyn Pont-siân, credai Dewi Emrys y dylai pawb gael gwddf 'run fath â jiraff er mwyn enjoio cwrw'n iawn! Roedd 'na gwrw yng Nghymru ddwy fil o flynyddoedd cyn Crist ac er i'r mudiad dirwest gydio unwaith fel tân eithin, trodd yn dân siafins. Heddiw, ffynna bragdai bychain ledled y wlad.

Arferid macsu cwrw yn yr ardal hon. Ceir bragdy, er bron yn adfail, ar fferm Glynmeherin, ac roedd 'cwrw cynhaeaf' yn bwysig i'r fedel slawer dydd. Galwai'r achlysur cymdeithasol o ladd mochyn am gwrw ac roedd yn arferiad cael 'cwrw bando' wrth roi'r cylch haearn am gwrbin olwyn cart. Crynhuai'r cymdogion a'r crefftwyr i gael 'cwrw cwple' i ddathlu torri asgwrn cefn y gwaith o godi tŷ ac wrth gwrs gwnâi 'cwrw ocsiwn' i'r prynwr

weld yr oen yn fwy na'r ddafad
a'r llo bach yn fwy na'i fam

ys dywedodd Fred y Cilie mor bell nôl â 1898.

Ganllath o Glynmeherin, ar dyddyn Pantycriclas tua 1820 roedd Siôn ap Harri yn macsu a gwerthu'n ddidrwydded i blwyfolion Llanwenog a ddeuai i godi mawn fel tanwent o'r Gorsgoch. 'Y Dywarchen' oedd yr arwydd uwch y drws ond daliwyd ef a chafodd ddirwy o bymtheg swllt - swm enfawr i dyddynnwr tlawd. Talodd sgweier Blaenau Gwenog drosto a bu'n talu'n ôl am fisoedd drwy godi clawdd i amgáu'r gors; oes y llafur caled.

Ganllath arall o Bantycriclas mae'r tafarn presennol. Canodd Tydfor:

Mae Cefn-yr-Hafod yn dafarn bach da
Pryd bynnag y galwch, boed aeaf neu ha'
Mae Dani a Martha yn tynnu o'r tap
A lawr y corn gwddwg y ddiod â chwap.

Oddi yma aeth y meddwyn 'ny adref, rhoi ei drowser yn y gwely a phlygu ei hun dros gefn y stôl!

Mae yma organ ers 1967, 'run teulu ers degawdau, mae'n echel Cymreictod bro. Ond cofiaf y plwyf â saith tafarn ac wyth addoldy. Erys yr wyth, aeth y saith yn un. A'm cwestiwn i ddarllenwyr Clonc: oes yma gymaint yn fwy o saint na phechaduriaid? Yn 2017, oes yma wyth cymunwr am bob claddwr peint? Ymatebwch.

Rwy'n gwobod ateb Eirwyn; dyfynnu un o'i hoff benillion:

Rhowch imi dŷ ar fin y ffordd
Lle treigla'm hil yn llu,
Dynion da a dynion drwg
Mor dda, mor ddrwg â mi.

Gan ychwanegu fod y capel, fel y tafarn, yn dŷ ar fin y ffordd. Gyda ni mae'r dewis - hyfryd iawn!



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

**Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY**

❖ **Cyfrifon Blynnyddol ac Interim**

❖ **Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau**

❖ **Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW**

❖ **Cyflogau a CIS**

❖ **Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion**

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Gellir gadael eich newyddion ar gyfer

Papur Bro Clonc yn

Siop J H Roberts a'i feibion

Stryd Fawr, Llanbed

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref


Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com



Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedd
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Carpedi


Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS

TYRES

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbedd

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwnciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Crexit – tipyn o shambls

Adroddiad gan ein gohebydd arbennig

Mae hi bach o shambls i lawr yng Ngheredigion, fyth ers i bobol y sir bleidleisio tros adael Cymru. Gydag ychydig tros flwyddyn i fynd tan y diwrnod mawr, fe allech chi ddweud bod y dom ar fin taro'r extractor gwynt.

Cyn diwedd 2019, fe fydd y sir wedi gadael gwladwriaeth Cymru ac yn mynd ar ei liwt ei hun. Y broblem yw y bydd hyn yn creu problemau mawr yn y berthynas gyda chymdogion ac mae pethau'n arbennig o anodd i lawr yn ardal Llanbedr Pont Steffan, Llanybydder a Chwmann.

[Nodyn i Olygydd Clonc – bydd rhaid i ni fod yn ofalus fan hyn rhag cymharu Theresa May ac Elen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Ceredigion, neu gymharu cynghorwyr ardal Clonc gyda Boris Johnson, David Davis a Michael Gove.

Mae cyfreithiau enllib yn golygu y gallai'r papur bro gael ei siwio oherwydd y bydden ni'n gwneud drwg mawr i'w henw da nhw. Enw da Elen ap Gwynn a'r cynghorwyr, wrth gwrs.]

Roedd mwyafrif pobol Ceredigion wedi cael eu perswadio gan ddadleuon y byddai Ceredigion yn well ar ei phen ei hun – Ceiniog y Cardis i'r Cardis oedd y slogan mawr. Er bod rhai o'r Cardis mwya' brwd yn dweud y byddai Dimai yn nes ati.

Y prif reswm, wrth gwrs, yw awydd i dorri'n rhydd oddi wrth Gogs ar un ochr i'r sir a phobol Sir Gâr ar y llall. Yn llygaid y Cardis, mae un lot yn siarad yn od ac mae'r lot arall jyst yn od.

Roedd pobol ardal Clonc wedi cael eu denu'n arbennig gan addewid y bydden nhw'n cael parcio am ddim ar y Cwmins ... doedd neb ar y pryd wedi sôn y byddai'n rhaid talu toll i fynd i mewn i Gwmann neu i siopa yng Nghaerfyrddin.

Yn Llanybydder a Chwmann a'r pentrefi eraill ar y ffin, mae yna drwbwl mawr, gan fod rhai wastad wedi meddwl y dylen nhw fod yn rhan o Geredigion ac eraill yn hollol hapus i aros yn Sir Gâr.

Dyma sut y bydd Crexit yn effeithio ar yr ardal mewn gwahanol feysydd...

Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos y bydd ffin yn cael ei chodi jyst tu fas i'r Co-op ac ar hyd afon Teifi – er bod sôn y bydd Dai Dolau yn prynu cwch er mwyn smyglo partiau tractors ail-law o Sir Gaerfyrddin.

Iechyd – roedd y Crexitwyr wedi addo y byddai Ysbyty Bronglais yn cael holl arian trethi iechyd y sir; yn awr, mae'n ymddangos y bydd rhaid talu am bob gwasanaeth y tu fas a bydd rhaid i ddoctoriaid Llanbedd dalu toll bob tro y maen nhw'n mynd i feddygfa Llanybydder.

Ffermio – Roedd y Crexitwyr wedi meddwl am slogan glyfar – 'Rheolau da i ddim' – er mwyn cyfleu'r syniad y bydden nhw'n torri'r rheoliadau ar amaeth i lawr i ddim. Dim ffurflenni, dim helthansefti, dim inspectors cachu gieir. Yn anffodus, yn ôl ein gohebydd amaeth, Twynog Davies, fe fydd rhaid llenwi'r holl hen ffurflenni i gyd ac un arall ychwanegol er mwyn gallu mynd â defaid i Dunbia.

Mewnffudo. Dyma un maes, lle mae'r Crexitwyr yn dal i fod yn hapus. Fe fydd hi'n llawer mwy anodd i bobol Sir Gâr symud i Geredigion a glastwreiddio DNA y Cardis. Fyddan nhw ddim yn cael dod i weithio i siopau Llanbedd nac yn cael prynu tai yma. Er mwyn llenwi'r bwch bydd rhaid cael rhagor o bobol i mewn o ymhellach i ffwrdd – tros Glawdd Offa a thu hwnt. Hwrê!

Does neb yn siŵr iawn beth sy'n digwydd na pham. Mae Goronwy Evans wedi pregethu sawl gwaith ar y testun Moch Gadara ac mae'r fets yn Milfeddygfa Steffan wedi egluro sut y mae lemmings yn dilyn ei gilydd tros ddibyn am eu bod nhw'n meddwl bod rhaid iddyn nhw ... ond does neb yn gwranddo.

Yr unig obaith, meddai rhai, yw y bydd yr Aelod Seneddol lleol yn fodlon gorwedd ar draws Afon Teifi – a fo Ben bid bont.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbedd**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbedd



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbedd, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbedd, Heol Tregaron,
Llanbedd.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS
& BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbedd**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtcadno



Gwasanaeth troi Vhs i Dvd

Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES
PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Cwmsychpant



Plant ac ieuencid Capel-y-Cwm yn eu gwisgoedd Cymreig ar ôl eu Gwasanaeth Gŵyl Dewi. Buont hefyd yn paratoi a choginio cawl a phice bach i aelodau'r Capel.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Dros y misoedd diwethaf, mae nifer fawr o etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r drafodaeth ar ail-strwythuro gwasanaethau iechyd o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda sydd wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar. Mae'r drafodaeth hon yn amlwg yn achos pryder i nifer, gan ein bod ni eisoes wedi ennill sawl dadl dros gadw Ysbyty Bronglais.

Er hynny, mae angen i ni barhau i ymgyrchu er mwyn galluogi mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd ar draws Ceredigion, ac mae'n hollbwysig i godi'r achos unwaith eto, i sicrhau bod Bronglais yn parhau fel ein prif ysbyty ni, ac i weddill canolbarth Cymru. Mae cadw ein hadran Achosion Brys 24 awr ynghyd â gwasanaethau llawdriniaeth hefyd yn allweddol.

Rwy'n parhau i bwysleisio gyda'r Gweinidog Iechyd a'r Bwrdd Iechyd mai datblygu gwasanaethau yn yr ysbyty sydd angen, nid eu torri. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau ei fwriad i gadw gwasanaethau ysbyty yn Bronglais, felly yn ne ardal Hywel Dda bydd y newidiadau posib.

Dros y misoedd diwethaf, rydw i wedi cynyddu'r pwysau unwaith eto ar Openreach i gwblhau'r gwaith Band Eang sydd heb ei gyflawni wedi i'r cytundeb rhwng y cwmni a Llywodraeth Cymru ddod i ben ddiwedd y llynedd. Mae nifer o achosion wedi dod i'r amlwg lle mae ffibr yn barod ar bolion mewn pentrefi, gyda dim ond cysylltu â thai angen ei wneud.

Yn fuan iawn, fe fydda i'n cwrdd ag Openreach er mwyn trafod achosion penodol, ac yn ogystal byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru, Julie James, er mwyn sicrhau blaenoriaeth i Geredigion yn ystod y broses band eang nesaf.

Rydw i hefyd wrthi'n trefnu cyfarfod agored gyda'r Gweinidog yng Ngheredigion dros y misoedd nesaf. Byddaf yn hysbysu'r digwyddiad hwn yn nes at y dyddiad.

Ers stormydd Rhagfyr 2017, rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i newid y ffordd yr ariennir gwelliannau i'n hamddiffynfeydd. Yn y gorffennol, fe ddaeth 100% o'r nawdd ar gyfer gwaith cynnal a chadw drwy Lywodraeth Cymru, ond erbyn hyn mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ddod o hyd i 25% o'r nawdd ar gyfer unrhyw waith.

Mae'r ffaith bod yn rhaid i'r Cyngor Sir ddod o hyd i 25% o'r nawdd cyfalaf yn rhwystr i weithredu yn sydyn a gyda golwg hirdymor. Petai'r llywodraeth yn caniatáu'r newid cyllid hwn, fe fyddai yna effaith sylweddol ar gyllido ein gwasanaethau lleol, a mwy o sicrwydd i lannau Ceredigion.

Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com





GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
21 Stryd Fawr, Llanbedd
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau

Cefn Hafod
Gorsgoch

Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun— Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

LKitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045





Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Wel gobeithio eich bod wedi mwynhau eich gwyliau hanner tymor. Rwy'n siwr eich bod chi gyd wedi bod yn brysur yn yr ysgol yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Ydych chi'n cystadlu? Wel pob lwc i bob un ohonoch ar y llwyfan neu gyda'r cystadlaethau creadigol, a gwnewch eich gorau glas!

Unwaith eto y mis hwn bu llawer ohonoch wrthi'n lliwio llun y teganau yn y siop ac roedd y postmon yn brysur tu hwnt unwaith eto. Llongyfarchiadau i bawb ond yn arbennig i Thomas, Tristan, Elliw, Manon, Beca, Tomi, Charlie, Alaw, Dion, Megan, Gwenllian, Wil, Arthfael, Dewi, Damon, Ellie, Steffan, Luca, Tom, Aron, Rhodri Rhys, Aron Jac, Osian, Noa o Ysgol Dyffryn Cledlyn, Mari Edwards o Gellan, Anna Siencyn Evans o Drefach a Summer Howden o Lanbedr Pont Steffan. Ond mae un yn dod i'r brig sef un gwych Sara Fflur Pugh, Ucheldir, Ffair rhos, Ystrad Meurig. Da iawn ti Sara.

Wel, rwy'n dechrau cael digon ar yr hen law 'ma bob dydd ac wedi cael llond bol ar gragen wlyb drwy'r amser. Ond un peth sydd wedi fy ngwneud i'n hapus yn ddiweddar yw gweld tîm rygbi Cymru yn chwarae mor dda. Byddwn i wrth fy modd cael cwrdd â George, Gareth a Scott. Pwy â wŷr, efallai rhyw ddydd y byddan nhw'n chwilio am grwbau i gadw cwmni iddyn nhw. Tan hynny bydd rhaid i mi wneud tro â'm ffrind Sion fan hyn, sydd hefyd wrth ei fodd yn chwarae rygbi. Tybed a allwch chi wneud gwisg Sion yn fwy lliwgar? Cofiwch ddychwelyd eich llun lliwgar ataf erbyn 26ain Mawrth.

Hwyl am y tro,




Enillydd
y mis!

Sara
Fflur
Pugh

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Rygbi



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

Bu darllenwyr Papur Bro Clonc yn ffodus iawn dros y deng mlynedd diwethaf i ddysgu llawer am enwau lleoedd y golofn hon gan y Dr David Thorne, Llanllwni.

Erbyn hyn mae David wedi cyhoeddi 100 o golofnau yn y papur a hynny dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

Mae'r gymdeithas yn hybu ymwybyddiaeth ac astudiaeth o enwau lleoedd Cymru, ac yn anelu i warchod enwau lleoedd sydd efallai mewn perygl o ddiffyg defnydd. Mae'r gymdeithas hefyd yn ystyried y berthynas rhwng enwau lleoedd, hanes a diwylliant Cymru.

Dechreuodd ei gyfraniadau nôl yn 2008 gydag esboniadau am enwau lleol fel Sarn Elen a Sarn Gining, ac ers hynny mae pawb wedi eu diwallu â gwybodaeth hanesyddol a diddorol am enwau lleoedd.

David yw Cadeirydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac mae'n arbenigo yn y maes ers blyneddau. Ef oedd Pennaeth Yr Adran Gymraeg hefyd ym Mhrifysgol Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan cyn ei ymddeoliad rhai blyneddau yn ôl.

Yn ei golofn gyntaf ym Mhapur Bro Clonc dywedodd David "Fe wyddom ni i gyd yn union lle'r ydym ni'n byw ac rydym ni i gyd yn gwybod beth yw enw'r pentref a'r plwyf. Ond faint ohonom ni sydd wedi ystyried beth yw ystyr rhai o'r enwau hynny? Maen nhw i gyd yn enwau pwysig. Dyma'r labeli sy'n

gwahaniaethu rhwng gwahanol rannau ein cymdogaeth ni.

"Ond mae enwau lleoedd yn fwy na labeli bach cyfleus i'r postmon, oherwydd dyma'r enwau sy'n ein cynrychioli ni yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn y byd mawr tu allan.

Enwau lleoedd yw'r unig elfennau ar fap nad oes modd o gwbl eu cynrychioli nhw gan arwydd neu symbol.

Heb enw lle, mae'r map yn ddiffygiol. Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod rhif adnabod yn cael ei roi i bob cae ac i bob llain ac i bob cilcyn. Ond dyw hyn ddim yn golygu bod rhaid anwybyddu enwau caeau ac enwau lleoedd sydd yn aml yn ganrifoedd oed."

Cred David yn gryf y dylem warchod enwau lleoedd traddodiadol Cymraeg, a dyna'n rhannol oedd ei genhadaeth wrth gyfrannu ei arbenigedd yn y papur hwn.

"Ond weithiau pan fydd tŷ neu ffarm yn newid dwylo, mae'r enw yn cael ei newid hefyd. Mae'n weithred haerllug ac yn ddim byd llai na fandaliaeth pur. Ac mae'n fandaliaeth, rwy'n ofni, sydd ar gynydd ac yn amlwg drwy'r wlad.

"Onid yw'n gyfrifoldeb arnom ni i gyd i geisio sicrhau nad rhyw ffurfiau dwl, gwamal fel hyn fydd yn ein cynrychioli ni ac yn cynrychioli'n plant ni yn llygad y byd ac yn ein milltir sgwar ni ein hunain?"

Neges glir felly gan David Thorne i bob un ohonom, a diolch yn fawr iawn iddo am ei gyfraniadau gwerthfawr i'r papur bro dros y blyneddau.



Pêl-droedwyr ifanc Llambed



Sgwad dan 8 pêl-droed Llambed yn derbyn eu cit newydd a gafodd ei noddi'n garedig gan Calvin Jones o 'Calvin Jones Roofing' Llambed.



Sgwad pêl-droed dan 10 Llambed yn derbyn cit newydd gan ei noddwyr Malorie Saad o Town Hall Café Deli, a Hannah Deacon o West Coast Cleaning Linen Services Ltd.



Diolch i Claire a Chloe o dafarn Nag's Head Llambed, ac i Helen a Lee o Fastline cabs am noddi cit newydd i dîm pêl droed dan 12 Llambed.



Tîm pêl-droed merched dan 12 Llambed yn derbyn cit newydd sydd wedi ei noddi gan Helena Gregson, Pwythau.

Mwy o Eisteddfod Bro Pedr



Sgets Creuddyn yn ail.



Y Meim gorau o Dŷ Dulas.



Parti Merched gorau o Dŷ Creuddyn.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

*Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Brecs * Egsost

*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Tymor Pantomeimiau CFFI



Criw Pantomeim Clwb Bro'r Dderi ar eu set yn Theatr Felinfach yn barod i berfformio 'Beti Bledrws a Thŵr y Dderi' dan gyfarwyddyd Elliw Dafydd. Daeth Daniel Evans yn drydydd fel Actor dan 16 oed.



Clwb Cwmann yn perfformio Pantomeim 'A'r fflam i Gwmann' yn Neuadd y Gwendraeth. Diolch i'r holl aelodau am eu hymroddiad ac i Meinir, Elen, Aled, Tomos a swyddogion y clwb am hyfforddi.

Clwb Pontsian enillodd y gystadleuaeth yng Ngheredigion, a daeth clod i'r canlynol: Dylan Iorwerth, Llanwnnen am y Sgript Orau; Endaf Griffiths, Cwmsychpant yr Actor Gorau dan 26 oed ac Einir Ryder, Cwmsychpant a Dylan Iorwerth y Cynhyrchwyr Gorau.



Clwb Llanllwni yn perfformio Pantomeim 'Y Dewin Y Dwl a'r Criw Siwldi-mwl!' o dan gyfarwyddyd Gary Davies yn Neuadd y Gwendraeth.



Clwb Llanwenog a enillodd y Set Orau a'r Perfformiad Technegol Gorau gyda 'Cwtch, Slwtch a Thwtch o Rwtch' dan gyfarwyddyd Pete Ebbsworth.



**ANGEN CLUDIANT I GAEL MYNEDIAD I
WAITH, HYFFORDDIANT, ADDYSG, GOFAL
IECHYD, SIOPA NEU GYFARFOD Â FFRINDIAU
A THEULU?**

Cydweithrediad Rhwydwaith Integredig Lleol (LINC)

Menter trafniadaeth wledig newydd yn gweithredu yng ngorllewin Cymru, yn cysylltu cymunedau gwledig â'r prif wasanaethau bws a'r rhwydwaith trenau, gan wneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd gwledig, iechyd a'r economi leol.

Lle mae'r siwrnai'n cychwyn a gorffen.

Bwcabus
TrawsCymru
Cyswllt TrawsCymru Connect



CREU CYSYLLTIADAU

